Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Yn falch i fod yn rhan o Proud part of GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV)

Cyd-Asesiad Strategol o Anghenion

Medi 2026



"Gadewch i ni wneud rhywbeth yn wahanol - Gadewch i ni fod yn ddewr"





©

Llunio'r adroddiad hwn

Cyflawnwyd y cyd-asesiad strategol hwn o anghenion gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Gwent ar ran Bwrdd VAWDASV Gwent.



Diolch

I'r dioddefwyr a'r goroeswyr

Dymunwn ddiolch i'r dioddefwyr a'r goroeswyr a rannodd eu profiadau â ni fel rhan o'r asesiad hwn o anghenion. Mae eich dirnadaethau yn amhrisiadwy a gwerthfawrogir hwy yn fawr.

Partneriaid a Chydweithwyr yng Ngwent

Dymunwn ddiolch hefyd i gydweithwyr ledled Gwent a gyfranogodd mewn cyfweliadau proffesiynol ac a rannodd eu profiadau o weithio mewn gwasanaethau, ac i'r rhai a gynorthwyodd i ddatblygu'r cyd-asesiad strategol o anghenion hwn trwy gyfrannu tystiolaeth, data a gwybodaeth.

Ein tîm cyflawni

Diolch yn fawr iawn i'n Tîm Iechyd y Cyhoedd yng Ngwent, sydd wedi cyfrannu at wireddu'r adroddiad hwn:

Rhiannon Griffiths - Shannon Cuthbertson - Anna Pennington - Jess Ryan - Amy McNaughton - Alex Walker - Natalie Hazard

Cymorth os bydd angen hynny arnoch chi

Os bydd unrhyw un o'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn effeithio arnoch chi, mae cymorth ar gael yn lleol ac yn genedlaethol:

Cymorth i Fenywod Cyfannol
03300 564456
Hafan - Cymorth â chamdriniaeth a thrais rhywiol - Cymorth i Fenywod Cyfannol

Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
Llinell gymorth Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU



Rhestr termau

Gweler cyfeirnod[1] am ffynonellau'r rhestr termau.

Rheolaeth drwy orfodaeth yw patrwm o godi ofn, diraddio, ynysu a rheoli trwy ddefnyddio neu fygwth trais corfforol neu rywiol.

Mae **Cam-drin domestig** yn ddigwyddiad neu'n batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi, codi ofn, israddio a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol, yn y rhan fwyaf o achosion gan bartner neu gyn-bartner, ond hefyd gan aelod o'r teulu neu ofalwr. Gall cam-drin domestig gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y canlynol: rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin seicolegol a/neu emosiynol, cam-drin corfforol neu rywiol, cam-drin ariannol neu economaidd, aflonyddu a stelcio, cam-drin ar-lein neu ddigidol.

Mae **Anffurfio organau cenhedlu benywod** yn disgrifio unrhyw weithdrefn sy'n cynnwys tynnu organau cenhedlu allanol benywaidd yn rhannol neu'n llwyr neu anaf arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau anfeddygol.

Priodas dan orfod yw un a gynhelir heb ganiatâd rhydd a llawn un neu'r ddau berson.

Mae **Aflonyddu** yn cwmpasu ystod eang o ymddygiadau o natur dramgwyddus. Fe'i deellir yn gyffredin fel ymddygiad sy'n dychryn, bygwth, dirmygu, codi gwarth neu gywilyddio person.

Cam-drin ar sail anrhydedd nid oes ddiffiniad sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol ar gyfer trais ar sail 'anrhydedd'. Fe'i defnyddir yn gyffredinol i gyfeirio at droseddau sydd wedi'u cyflawni gan droseddwyr sy'n tybio eu bod yn amddiffyn 'anrhydedd' teulu neu gymuned. Yn aml, mae'r troseddau hyn yn cynnwys mathau o gam-drin domestig a thrais rhywiol. Gellir defnyddio 'anrhydedd' o'r fath i gyfiawnhau amrywiaeth o ymddygiadau camdriniol, yn nodweddiadol yn erbyn menywod a merched; fodd bynnag, mae'r rhain yn droseddau hawliau dynol ac ni ddylid eu hesgusodi am unrhyw reswm.

Trais a cham-drin rhywiol yw unrhyw ymddygiad y credir ei fod o natur rywiol sy'n ddiangen ac yn digwydd heb ganiatâd. Gall trais a cham-drin rhywiol fod yn gorfforol, yn seicolegol, yn eiriol neu ar-lein.

Mae **stelcio** yn ymwneud â pherson yn cael obsesiwn gyda rhywun arall. Mae stelcio yn batrwm o sylw parhaus a digroeso sy'n gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich poeni, eich bod yn ofnus, yn bryderus neu'n cael eich aflonyddu.

Mae **trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)** yn ymgorffori Trais yn Erbyn Menywod (a Merched), Cam-drin Domestig, Treisio a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd, Priodas Dan Orfod, Stelcio, Masnachu Pobl a mathau eraill o drais.

[1] WWV-Fframwaith-Digidol-Cymraeg.pdf

Nodyn ynghylch terminoleg



Er bod yr asesiad o anghenion hwn, yn ogystal â strategaethau, deddfwriaethau a pholisïau cenedlaethol a rhanbarthol, yn cyfeirio at drais yn erbyn menywod a merched, mae'n bwysig cofio nad yw'n negyddu trais a chamdriniaeth a gyfeirir at ddynion, bechgyn a rhyweddau eraill, na thrais a cham-drin a gyflawnir gan fenywod a merched. Mae'n cydnabod bod menywod a merched yn cael profiadau anghymesur o drais a cham-drin ar sail rhywedd, ac y gall trais effeithio ar unrhyw un, beth bynnag fo'u rhyw, eu hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, cred grefyddol, incwm, ardal ddaearyddol, neu ffordd o fyw.

Drwy gydol y ddogfen hon, mae iaith yn amrywio rhwng rhyw (gwryw a benyw) a hunaniaeth o ran rhywedd (dynion, menywod ac anneuaidd). Rydym wedi dewis adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir gan ddarparwr y data oherwydd mae hynny'n adlewyrchiad mwy cywir o'r hyn y mae'r data yn ei gyfleu.

Rhestr termau ... 3
Cyflwyniad ... 6
Bwrdd Partneriaeth VAWDASV Gwent ... 8
Dull iechyd y cyhoedd ... 8
Nodau ac amcanion ... 9
Cyd-destun cenedlaethol VAWDASV ... 10
Polisi a deddfwriaeth ... 10
Mynychder cenedlaethol VAWDASV ... 12
Deall anghenion cymunedau a danwasanaethir ... 15
Mynychder VAWDASV yng Ngwent ... 20
Darpariaeth VAWDASV gyfredol yng Ngwent ... 24
Trosolwg o wasanaethau yng Ngwent ... 25
Demograffeg cleientiaid a'u hanghenion ... 37
Ein gweledigaeth at y dyfodol ... 46
Ein haddewid i Went ... 52
Atodiad ... 57
Atodiad A: Themâu'r dadansoddiad ansoddol ... 57
Atodiad B: Mapiau gwasanaethau awdurdodau lleol ... 59

Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn groes i hawliau dynol; yn amddifadu pobl o ddiogelwch, rhyddid, a'r hawl i fyw heb niwed. Cyfeirir at VAWDASV fel achos a chanlyniad anghydraddoldeb o ran rhywedd, ac mae'n fater cymhleth ym maes iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol sydd wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb a normau cymdeithasol niweidiol. Mae effaith VAWDASV yn ddinistriol ac yn helaeth; yn effeithio ar blant, pobl ifanc, menywod, dynion, teuluoedd a chymunedau ehangach.



Ffigur 1 Ymddygiadau VAWDASV

Yn dreiddiol ac yn bellgyrhaeddol, mae VAWDASV yn achosi costau sylweddol o ran iechyd a lles y sawl y mae hynny'n effeithio arnynt (ffigur 2), ac i'r economi (ffigur 3). Bydd cyfanswm cost VAWDASV yng Nghymru a Lloegr hyd yn oed yn fwy na'r ffigurau isod. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y costau economaidd ar gyfer mathau eraill o drais yn erbyn menywod, y tu hwnt i gam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn hollbwysig, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried y costau personol, cymdeithasol ac emosiynol a ddioddefir gan ddioddefwyr a'u teuluoedd yn sgil camdriniaeth.



Ffigur 2: Effeithiau VAWDASV ar iechyd a lles [2, 3]



Ffigur 3: Cost VAWDASV yng Nghymru a Lloegr[4, 5]

---

[2] What Works to Prevent Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV)? - World Health Organization Collaborating Centre On Investment for Health and Well-being

[3] Violence against women

[4] Freedom from violence and abuse: a cross-government strategy to build a safer society for women and girls (accessible) - GOV.UK

[5] Sexual Violence Cost Estimate - City Vision

Bwrdd VAWDASV Gwent

Mae canlyniadau VAWDASV o ran iechyd, lles a'r economi yn rhy fawr i'w hanwybyddu. Mae Bwrdd VAWDASV Gwent, a sefydlwyd yn unol â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn dwyn ynghyd grŵp amrywiol o bartneriaid sydd ag uchelgais gyffredin i gynorthwyo'r sawl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt ac i ddilyn rhaglen atal VAWDASV.

Yn unol ag adran 5 Deddf VAWDASV, cyhoeddodd Bwrdd VAWDASV Gwent strategaeth pedwar mlynedd ynghylch VAWDASV[6] (2023 - 2027) a argymhellodd y dylid ymgymryd ag asesiadau rheolaidd o anghenion i fonitro mynychder a difrifoldeb VAWSASV ledled Gwent. Ymgymerwyd â'r cyd-asesiad strategol o anghenion (JSNA) hwn yn unol â'r argymhelliad uchod a bydd yn llywio'r Strategaeth VAWDASV ddiweddaredig yn 2027.

Dull iechyd y cyhoedd

Mae dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn hanfodol (ffigur 4). Caiff dull iechyd y cyhoedd systematig ei hyrwyddo gan Sefydliad Iechyd y Byd ac mae'n cyfuno dirnadaethau o amrywiaeth o ffynonellau i lywio camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y boblogaeth gyfan.



Ffigur 4: Dull iechyd y cyhoedd o atal trais, gan Cymru Heb Drais[7]

[6] VAWDASV Strategy 2023-2027 final
[7] WWV-Fframwaith-Digidol-Cymraeg.pdf

Nodau ac amcanion

Amcanion y JSNA hwn yw amlinellu cyd-destun cenedlaethol VAWDASV (gan gynnwys polisi, deddfwriaeth a mynychder), adolygu anghenion y boblogaeth ac ymateb y system i VAWDASV yng Ngwent, a nodi meysydd ble ceir arferion da a chyfleoedd yn y dyfodol i wella iechyd a lles yn ein cymunedau.

Mae'r JSNA hwn yn canolbwyntio ar leisiau dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV a phrofiadau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau ledled Gwent, a cheir trosolwg o'r gwasanaethau sydd ar waith i gynorthwyo'r sawl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt. Nid yw cwmpas yr asesiad hwn yn cynnwys cyflawnwyr oherwydd mae gwaith ar y gweill mewn sefydliadau eraill yng Ngwent i adolygu hyn.

Dyma'r prif amcanion:

- Cydgrynhoi cyd-destun cenedlaethol ac ehangach VAWDASV, gan gynnwys polisi, deddfwriaeth, mynychder, a phrofiadau unigryw gwahanol boblogaethau;
- Amlinellu'r sefyllfa bresennol yng Ngwent a'r heriau cysylltiedig o ran sut rydym yn deall mynychder VAWDASV;
- Cyflwyno crynodeb cydlynol o'n canfyddiadau, gan gynnwys gwasanaethau VAWDASV sydd ar gael yng Ngwent ar hyn o bryd, demograffeg ac anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yng Ngwent, a'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau VAWDASV yn y dyfodol;
- Rhannu lleisiau'r bobl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt a'u profiadau o lywio gwasanaethau ledled Gwent;
- Harneisio lleisiau gweithwyr proffesiynol i nodi arferion da ac amlygu cyfleoedd i wella sut ein dull o gynorthwyo pobl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt;
- Llunio argymhellion ymarferol ar y cyd â phartneriaid i gryfhau ein hymateb strategol ar y cyd i VAWDASV yng Ngwent;
- Cynnig dirnadaethau i lywio diweddaru strategaeth Bwrdd VAWDASV Gwent yn 2027.

Cyd-destun cenedlaethol VAWDASV

Polisi a deddfwriaeth

Mae angen glynu wrth lawer o bolisïau a deddfwriaeth ynghylch VAWDASV yng Ngwent, Cymru a'r DU. Mae trosolwg llawn wedi'i amlinellu yn Strategaeth Ranbarthol Gwent ynghylch VAWDASV (2023-2027). Mae rhywfaint o'r diweddariadau allweddol diweddar yn cynnwys:

Polisïau

- Gofyniad Plismona Strategol 2023

Mae'n ystyried bod trais erbyn menywod a merched (VAWG) yn fygythiad ar y lefel genedlaethol, yn gorfodi heddluoedd ledled y DU i flaenoriaethu a chydlynu ymatebion ar y lefel genedlaethol a gosod disgwyliadau eglur ar gyfer galluoedd yr heddlu yn lleol ac yn rhanbarthol i fynd i'r afael â VAWG.

- Cynllun Iechyd Menywod Cymru 2024

Mae'n nodi sut y bydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cau'r bwlch iechyd rhwng y rhyweddau drwy ddarparu gwasanaethau iechyd gwell i fenywod, gan sicrhau bod rhywun yn gwrando arnynt ac y deellir eu hanghenion iechyd. Mae'r cynllun yn trafod ystod o gyflyrau clinigol sy'n effeithio ar fenywod, yn ogystal â thrais.

- Adolygiad Diogelu Unedig Sengl 2024

Mae'n amlinellu'r broses yng Nghymru sy'n cyfuno pum proses adolygu yn un model. Ers cyhoeddi'r canllawiau hyn, dim ond un adolygiad diogelu a a gaiff ei gynnal pan fodlonir un neu fwy o'r meini prawf ar gyfer yr adolygiadau hyn, gan gynnwys Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau o Ddynleiddiaid Domestig.

- Rhyddid rhag Trais a Cham-drin: Strategaeth Drawslywodraethol 2025

Mae'n nodi cynllun cyffredinol Llywodraeth y DU i haneru nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched o fewn degawd drwy ganolbwyntio ar atal, erlid troseddwyr yn ddi-baid, a chymorth cynhwysfawr i ddioddefwyr a goroeswyr. Mae'n pwysleisio dull cymdeithas gyfan, gan ei gwneud yn ofynnol i weithredu'n gydlynol ar draws y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol cam-drin, gwella dulliau ymyrraeth gynnar, cryfhau'r ymateb gan y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llywio gan dystiolaeth a phrofiad goroeswyr.

Deddfwriaeth

Dyletswydd Trais Difrifol 2022

Mae'n gosod gofyniad statudol ar awdurdodau penodedig gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, timau gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol drwy rannu data, cynllunio'n gydlynol, a strwythurau partneriaethau amlasiantaethol ledled Cymru a Lloegr. Yn hollbwysig, mae'r canllawiau statudol yn cydnabod yn benodol bod cam-drin domestig a throseddau rhywiol yn fathau o drais difrifol sy'n rhan o gwmpas y Ddyletswydd, gan gryfhau'r gyfatebiaeth rhwng atal trais difrifol a'r agenda ehangach ynghylch VAWDASV.

Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024

Mae'n sefydlu rolau eiriolwyr annibynnol, yn ymgorffori egwyddorion Cod Dioddefwyr, yn diwygio prosesau parôl, ac yn ychwanegu amddiffyniadau ynghylch cymalau cyfrinachedd. Mae hwn yn newid deddfwriaethol sylweddol ledled y DU sy'n atgyfnerthu hawliau dioddefwyr yn uniongyrchol, gan gynnwys y sawl y mae VAWDASV yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Bil Troseddu a Phlismona 2025

Mae'n sefydlu pecyn eang o ddiwygiadau sy'n cryfhau'n uniongyrchol amddiffyniadau i ddioddefwyr VAWDASV, gan gynnwys creu troseddau newydd sy'n troseddoli tynnu lluniau cignoeth, gan greu trosedd newydd yn ymwneud â sbeicio. Mae'r bil hefyd yn rhoi'r hawl i ddioddefwyr stelcian wybod pwy yw eu troseddwr, ynghyd â chryfhau gorchmynion amddiffyn rhag stelcio a chyhoeddi canllawiau i asiantaethau ynghylch mynd i'r afael â stelcian. Ym mis Mawrth 2026, roedd y Cyfnod Adrodd ynghylch y bil wedi'i gwblhau, gan gynnig cyfle i Dŷ'r Arglwyddi graffu ar y Bil.

Mynychder cenedlaethol VAWDASV

Mae VAWDASV yn sbectrwm o ymddygiadau a phrofiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar fywydau dioddefwyr a goroeswyr.

Oherwydd heriau o ran deall gwir fynychder VAWDASV o fewn cymunedau Gwent, rydym yn dibynnu ar ddata cenedlaethol ynghylch mynychder i osod y cefndir o ran difrifoldeb a natur VAWDASV a brofir gan gymunedau ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Gwent.

Cam-drin domestig

Gweler cyf. [8]

3.8 miliwn

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, roedd tua 3.8 miliwn o oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig, gan gynnwys 2.2 miliwn o fenywod ac 1.5 miliwn o ddynion.

1 mewn 4

Ym mis Mawrth 2025, roedd un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig; un o bob tair menyw ac un o bob pum dyn. Mae hynny'n gyfystyr ag oddeutu 12.5 miliwn o bobl.

Lladdiad domestig

Gweler cyf. [9]

347

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, bu farw 347 o bobl yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â cham-drin domestig neu oherwydd hynny.

150

O'r 347 o farwolaethau, amheuwyd bod 150 yn hunanladdiad dioddefwr cam-drin domestig.

78%

Roedd tri o bob pedwar o ddioddefwyr cam-drin domestig yn fenywod (78%).

[8] Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Office for National Statistics
[9] Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides 2020-2025 Year 5 Report

Troseddau rhywiol

Gweler cyf. [10,11,12,13,14]

1 mewn 4

Mae un o bob pedair menyw ac un o bob 18 dyn yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu treisio neu wedi dioddef ymosodiad rhywiol ers pan oeddent yn 16 oed.

898,000

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, profodd 1.9% o oedolion (898,000 o bobl) ymosodiad rhywiol (gan gynnwys ymgeisio).

2 mewn 5
4 mewn 5

Mae dau o bob pump o achosion o dreisio menywod yn cael eu cyflawni gan bartner neu gynbartner.
Mae pedwar o bob pump o achosion o dreisio menywod yn cael eu cyflawni gan rywun y maent yn ei adnabod.

92%

Canfu arolwg Cymorth i Fenywod Cymru (2025) fod 92% o ymatebwyr benywaidd wedi profi aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys sylwadau, ystumiau a chyswllt corfforol digroeso.

81%

Adroddwyd am aflonyddu rhywiol yn y gwaith o leiaf unwaith gan 81% o ymatebwyr benywaidd yn arolwg Cymorth i Fenywod Cymru.



O blith y menywod sy'n ymweld â thafarndai neu fariau o leiaf un noson yr wythnos, mae 7.5% wedi profi ymosodiad rhywiol.
O blith menywod sy'n ymweld â chlwb nos rhwng unwaith a thair gwaith bob mis, mae 11% wedi profi ymosodiad rhywiol.



Fe wnaeth astudiaeth gan Lywodraeth Cymru (2025) ddwyn sylw at sut mae menywod o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle sy'n gysylltiedig yn benodol ag ethnigrwydd, diwylliant a chrefydd.

1 mewn 10

Yn yr Undeb Ewropeaidd, nododd un o bob deg menyw eu bod wedi profi aflonyddu seiber ers pan oeddent yn

[10] Sexual offences prevalence and victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics
[11] Nature of sexual assault by rape or penetration, England and Wales - Office for National Statistics
[12] No Grey Area Report 2025
[13] Archwilio profiadau menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o aflonyddwch rhywiol yn y gweithle | LLYW.CYMRU
[14] Violence against women: an EU-wide survey. Main results report | European Union Agency for Fundamental Rights

15 oed. Roedd hynny'n cynnwys e-byst neu negeseuon testun digroeso a oedd yn rhywiol eu natur a/neu'n sarhaus, ac awgrymiadau sarhaus a/neu amhriodol ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r risg ar ei gwaethaf ymhlith menywod 18-29 oed.

Stelcio

Gweler cyf. [15],[16]

1 mewn 5

Mae un o bob pump o fenywod a thua un o bob 11 o ddynion yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef stelcio o leiaf unwaith ers troi'n 16 oed.

13%

Yn achos y sawl sy'n 16-24 oed, mae 12.7% wedi profi stelcio yn y 12 mis cyn mis Mawrth 2025; bron i un o bob pump o fenywod ac un o bob 14 o ddynion.



Mae pobl ifanc yn llai tebygol o nodi ymddygiadau stelcio, naill ai fel dioddefwr neu fel cyflawnwr.
Mae grwpiau sydd mewn perygl yn cynnwys pobl ifanc LHDTC+, y rhai sy'n agored i drais mewn perthynas rhwng rhieni, a phobl ifanc niwroamrywiol.

Anffurfio organau cenhedlu benywaidd (FGM)

Gweler cyf. [17],[18]

114

Yn 2022, daeth 114 o fenywod sy'n byw yng Nghymru yn hysbys i Dîm Diogelu'r GIG fel rhai a oedd wedi profi o leiaf un achos o FGM.



Daw'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau ynghylch FGM yng Nghymru gan wasanaethau bydwreigiaeth neu ymwelwyr iechyd.



Er bod dioddefwyr a goroeswyr FGM yn tueddu i fod wedi'u crynhoi mewn ardaloedd canol dinas, mae'n debygol bod dioddefwyr a goroeswyr FGM yn byw yn ardaloedd holl awdurdodau lleol Cymru a Lloegr.

[15] Stalking: findings from the Crime Survey for England and Wales - Office for National Statistics
[16] Stalking-and-Young-People-in-Wales_Uni-of-South-Wales.pdf
[17] Female Genital Mutilation Experienced by Women Residing in Wales 2022
[18] Updating and improving estimates of the prevalence female genital mutilation in England and Wales

Cam-drin ar sail anrhydedd (HBA)

Gweler cyf. [19],[20]

2,949

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, cofnodwyd 2,949 o droseddau yn gysylltiedig â HBA gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

3,079

Mae Llinell Gymorth Karma Nirvana yn cynorthwyo pobl sy'n profi cam-drin ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, a mathau cysylltiedig o reolaeth drwy orfodaeth yn y DU.
Yn 2024/25, fe wnaethant ymateb i dros 10,000 o gysylltiadau, a chynorthwyo â 3,079 o achosion. Roedd hynny'n gyfystyr â chynnydd o 35% yn nifer yr achosion ers 2021/22.

Priodasau dan orfod

Gweler cyf. [21]

406

Yn 2025, fe wnaeth Uned Priodasau dan Orfod Llywodraeth y DU gynorthwyo â 406 o achosion yn ymwneud â phriodas dan orfod a/neu FGM yn y DU; roedd 40% o achosion yn ymwneud â dioddefwyr a oedd yn 17 mlwydd oed neu'n iau.

Deall anghenion cymunedau a danwasanaethir

Mae VAWDASV wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn normau cymdeithasol a diwylliannol, ac mae'n un o achosion cydraddoldeb ac yn un o ganlyniadau hynny. Mae VAWDASV yn fater croestoriadol yn ei hanfod; mae hunaniaeth a nodweddion y sawl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt yn dylanwadu'n gryf ar y profiad o gamdriniaeth a rhwystrau rhag cael cymorth. Gall pobl hŷn, plant a phobl ifanc, dynion, pobl LHDTC+, pobl o gymunedau hil leiafrifiedig, pobl ag anabledd a phobl sy'n profi anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol fod mewn mwy o berygl o brofi VAWDASV a phrofi rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael cymorth. Mae dealltwriaeth drylwyr o anghenion cymunedau sy'n profi anfanteision yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn ddiogel ac yn effeithiol i'n holl gymunedau.

[19] Statistics on so called 'honour-based' abuse offences, England and Wales, year ending March 2025 - GOV.UK
[20] KN_Report_2425.pdf v6 final
[21] Forced Marriage Unit statistics 2025 - GOV.UK

Pobl hŷn

Gweler cyf. [22]

700,000

Mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod tua 700,000 o bobl sy'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol.

Mae VAWDASV ymhlith pobl hŷn (60+) yn fynych ond yn gudd i raddau helaeth. Mae dioddefwyr hŷn yn llai tebygol o gael eu nodi ac yn llai tebygol o gael cymorth arbenigol, ac mae eu hachosion yn llai tebygol o gamu ymlaen drwy'r system gyfiawnder o'i gymharu â dioddefwyr iau[23]. Mae dioddefwyr hŷn cam-drin domestig yn llai tebygol o geisio gadael y cyflawnwr cyn ceisio cymorth ac yn fwy tebygol o barhau i fyw gyda'r cyflawnwr ar ôl cael cymorth na dioddefwyr iau. Mae methu â chydnabod VAWDASV ymhlith oedolion hŷn, neu fethu ag ymateb yn briodol i hynny, yn golygu bod llawer o ddioddefwyr yn methu â chael cymorth[24].

Mae deinameg cam-drin yn ddiweddarach mewn bywyd yn wahanol i'r hyn a welir yn achos poblogaethau iau; yn aml, plant sy'n oedolion, gofalwyr, neu bartneriaid hirdymor fydd y cyflawnwyr. Bydd cam-drin yn aml yn digwydd pan fydd iechyd yn dirywio a phan ddaw pobl yn anabl ac yn ddibynnol ar eraill. Ni cheir dirnadaeth dda o'r cymhlethdodau hyn, yn enwedig o fewn prosesau cyfiawnder troseddol, gan arwain at golli cyfleoedd i amddiffyn pobl. Mae ymchwil yn awgrymu y bydd VAWDASV yn erbyn pobl hŷn yn aml yn cael ei ystyried yn endid ar wahân, sef 'cam-drin pobl hŷn', ac nad yw hynny wedi teilyngu'r un lefelau o ddirnadaeth am ffactorau risg â VAWDASV sy'n effeithio ar bobl iau.[25].

Babanod, plant a phobl ifanc

Gweler cyf. [26],[27]

1 mewn 5

Mae un o bob pump o blant yn y DU wedi cael profiad o gam-drin domestig.

49%

Yng Nghymru a Lloegr yn 2024, roedd 27% o bobl 13–17 oed wedi bod mewn perthynas dros y flwyddyn flaenorol, ac o blith y rheini, roedd 49% wedi profi rhyw fath o ymddygiad treisgar ymddygiad a oedd yn rheoli trwy orfodaeth gan eu partner.

---

[22] Shining a spotlight on domestic abuse in older people | Discover | Age UK
[23] https://doi.org/10.1177/14773708251335388
[24] https://olderpeople.wales/improving-responses-to-older-peoples-experiences-of-sexual-violence-and-abuse-summary-report-html/
[25] https://doi.org/10.1177/14773708251335388
[26] https://youthendowmentfund.org.uk/news/half-of-teens-in-relationships-suffer-violence-or-controlling-behaviour-reveals-new-report/
[27] CVV24_R3_Gender.pdf

Mae'r 1,001 diwrnod cyntaf bywyd yn gyfnod hollbwysig ar gyfer datblygiad plentyn, ond mae ymchwil yn awgrymu bod 30% o gam-drin domestig yn dechrau yn ystod beichiogrwydd a bod 40% o hynny yn dechrau yn ystod 1,001 diwrnod cyntaf baban[28]..

Ers cyflwyno'r Ddeddf Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr 2021, cydnabyddir y bydd plant dan 18 oed yn ddioddefwyr cam-drin domestig os byddant yn gweld, yn clywed neu'n profi effeithiau cam-drin[29]. Amcangyfrifir bod cymaint â 16% o oedolion yng Nghymru wedi profi cam-drin domestig yng nghartref eu plentyndod, ac yn achos un o bob tri phlentyn a oedd yn cael gofal a chymorth yng Nghymru o 2022/23 ymlaen, roedd cam-drin domestig yn gysylltiedig â hynny[30].

Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc sydd wedi bod yn aelod o gang, wedi defnyddio cyffuriau neu wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn fwy tebygol o ddod yn ddioddefwyr trais ac ymddygiadau sy'n rheoli trwy orfodaeth pan fyddant yn dechrau sefydlu perthnasoedd rhamantus. Mae plant sy'n cael eu cynorthwyo gan weithwyr cymdeithasol, plant sy'n absennol yn gyson o'r ysgol, a phlant ag anghenion addysgol arbennig hefyd yn fwy agored i niwed, ac mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn fwy tebygol na'u cyfoedion o brofi trais mewn perthynas.[31].

Gwrywod

Gweler cyf. [32], [33],[34]



Roedd tua 41% o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig yn 2024/25 yn wrywod.



Adroddodd tua un o bob 100 o ddynion eu bod wedi profi ymosodiad rhywiol (gan gynnwys ymgeisiau) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.



Ar gyfartaledd, bydd un dyn yn cael ei ladd gan bartner neu gynbartner bob mis yng Nghymru a Lloegr.

[28] Domestic abuse in the perinatal period, and the importance of asking "the question" - Maternity & Midwifery Forum
[29] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17
[30] Adverse-Childhood-Experiences-and-their-Impact-on-Health-harming-Behaviours-in-the-Welsh-Adult-Population_Report.pdf
[31] https://youthendowmentfund.org.uk/news/half-of-teens-in-relationships-suffer-violence-or-controlling-behaviour-reveals-new-report/
[32] Domestic abuse victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics
[33] Sexual offences victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics
[34] Male Survivors of Domestic Abuse - NCDV

Mae canlyniadau Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (2025) yn awgrymu bod rhai grwpiau o ddynion yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na'u cymheiriaid benywaidd, gan gynnwys pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau hir a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant.[35].

I bob dioddefwr a goroeswr, mae anghydraddoldeb a normau cymdeithasol problemus yn sail i VAWDASV ac yn cynnal hynny, ond mae'r un anawsterau yn rhwystrau o ran ceisio cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd. Mae dioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd yn wynebu heriau penodol megis stigmateiddio a chywilydd, ynghyd â stereoteipiau niweidiol o wrywdod sy'n eu hatal rhag ceisio cymorth[36].

Pobl LHDTC+

Gweler cyf. [37]

15%

1 mewn 5

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, amcangyfrifwyd bod 15% o bobl hoyw neu lesbiaidd a oedd yn byw yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig.

Roedd hynny cyn uched â 20% ar gyfer pobl ddeurywiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae VAWDASV yn effeithio'n anghymesur ar aelodau cymunedau LHDTC+, ac mae gwasanaethau'n colli cyfleoedd i gynorthwyo dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr LHDTC+ [38]. Yn ychwanegol, mae ein dealltwriaeth o brofiadau penodol menywod lesbiaidd a hoyw, dynion hoyw, dynion deurywiol, menywod deurywiol, dynion traws, menywod traws, a phobl draws-sbectrwm eraill sydd wedi'u nodi yn gyfyngedig oherwydd ni ellir datgrynhoi canfyddiadau ymchwil bresennol[39].

Grwpiau cymunedau hil leiafrifiedig

Gweler cyf. [40]

12%

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth 11.5% o fenywod o gymunedau pobl dduon a 8.6% o fenywod o gefndir ethnig cymysg brofi cam-drin domestig (o'i gymharu â 7.9% o fenywod gwyn).

---

[35] Domestic abuse victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics
[36] Our support for male victims |
[37] Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Office for National Statistics
[38] https://safelives.org.uk/wp-content/uploads/Free-to-be-safe-report.pdf
[39] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/140604-barriers-faced-lgbt-accessing-domestic-abuse-services-en.pdf
[40] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2025#ethnicity

Mae menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn fwy tebygol o brofi ymosodiad rhywiol na menywod o gefndir gwyn[41]. O'i gymharu â menywod gwyn, mae menywod o gymunedau hil leiafrifiedig yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau niferus rhag cael cymorth, rhoi gwybod am gamdriniaeth, a chefnu ar berthnasoedd camdriniol[42]. Yn ogystal â hynny, mae menywod o gymunedau hil leiafrifiedig yn fwy tebygol o aros mewn sefyllfaoedd camdriniol am gyfnod hirach cyn ceisio cymorth[43].

Pobl sydd ag anableddau

Gweler cyf. [44],[45]



Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth 13.4% o oedolion ag anabledd brofi cam-drin domestig, o'i gymharu â 6.7% o oedolion heb anabledd, sy'n golygu bod oedolion anabl tua dwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig.



Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, roedd pobl ag anabledd wedi profi cyfradd uwch o drais rhywiol (3.1%) na phobl heb anabledd (1.6%).

Mae rhwystrau ychwanegol yn bodoli sy'n atal pobl ag anabledd rhag ceisio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, neu gymorth arbenigol, o'i gymharu â phobl heb anabledd[46]. Caiff y rhwystrau hyn eu gwaethygu pan fydd cam-drin yn rhan o'r darlun; mae pobl sydd ag anabledd yn fwy tebygol o brofi cam-drin, ac mae'n fwy tebygol na wnaiff neb ganfod eu hamgylchiadau. Yn ogystal â hynny, mae pobl sydd ag anabledd yn llai tebygol o gael cymorth prydlon ac yn fwy tebygol o barhau i fyw mewn sefyllfa gamdriniol am gyfnod hirach[47].

---

[41] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffencesprevalenceandvictimcharacteristicsenglandandwales

[42] https://doi.org/10.1177/15248380211050590

[43] https://doi.org/10.1080/13557858.2018.1447652

[44] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2025#disability

[45] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffencesprevalenceandvictimcharacteristicsenglandandwales

[46] Microsoft Word - Disability and domestic abuse topic overview FINAL.docx

[47] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/480942/Disability_and_domestic_abuse_topic_overview_FINAL.pdf

Statws cyflogaeth ac incwm aelwyd

Gweler cyf. [48],[49]



Roedd pobl â statws cyflogaeth salwch hirdymor/dros dro (14.6%), myfyrwyr (13.6%), a phobl ddi-waith (12.9%) yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â phobl oedd â chyflogaeth (8.1%).



Roedd myfyrwragedd yn fwy tebygol o fod wedi profi ymosodiad rhywiol (6.4%) o'i gymharu ag unrhyw statws cyflogaeth arall.



Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, roedd menywod (23%) a dynion (17.1%) mewn aelwydydd ag incwm o £20,800 neu lai yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig o'i gymharu â menywod (8.8%) a dynion (5.6%) mewn aelwydydd ag incwm o £52,000 neu fwy.

O blith y menywod sydd wedi profi cam-drin domestig, nododd 95% hefyd eu bod wedi profi cam-drin ariannol[50]. Dywed dros hanner y menywod sy'n profi cam-drin domestig y byddai'n anodd iddynt adael y sefyllfa oherwydd diffyg arian a/neu fynediad cyfyngedig at gronfeydd ariannol[51]. Bydd menywod yn fwy tebygol o brofi VAWDASV pan na fyddant mewn cyflogaeth amser llawn[52]. Mae VAWDASV yn effeithio'n andwyol hefyd ar y sydd mewn cyflogaeth amser llawn; nododd 10.5% o'r rhai a brofodd drais gan bartner agos eu bod wedi cael cyfnod o absenoldeb o'r gwaith (roedd 25.9% wedi bod yn absennol am fis neu fwy), ac roedd 3.6% wedi colli eu swyddi oherwydd y cam-drin[53].

Mynychder VAWDASV yng Ngwent

I lywio'r JSNA hwn, rydym wedi mapio gwasanaethau, wedi casglu data gan yr heddlu ac ynghylch y defnydd o wasanaethau, wedi defnyddio offeryn amcangyfrif SafeLives, wedi cydgasglu safbwyntiau gweithwyr proffesiynol (mae llythyren P yn dynodi'r dyfyniadau hynny), ac wedi casglu manylion profiadau dioddefwyr a goroeswyr (mae LE yn dynodi'r dyfyniadau hynny) [54].

[48] Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Office for National Statistics
[49] Sexual offences prevalence and victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics
[50] Statistics-on-economic-abuse_March-2020.pdf
[51] Statistics-on-economic-abuse_March-2020.pdf
[52] committees.parliament.uk/writtenevidence/126256/pdf/
[53] Short-report-Labour-market-consequences-of-IPVA.pdf
[54] Cafwyd cymeradwyaeth reoleiddiol fewnol gan Gyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) ym mis Ebrill 2025 ar gyfer casglu data ansoddol. Gellir canfod darlun llawn o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad ansoddol o gynnwys a rannwyd gan bobl â phrofiadau bywyd a chyfranwyr proffesiynol yn Atodiad B.



Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol a wynebwyd wrth lunio'r JSNA hwn oedd diffyg darlun eglur ynghylch VAWDASV a brofir gan bobl yng Ngwent. Mae cyfuno'r hyn a wyddom am fynychder VAWDASV yn ein cymunedau â dirnadaethau o bob un o'r ffynonellau hyn yn cynnig y ddealltwriaeth fwyaf cynhwysfawr bosibl o'r angen VAWDASV cyfredol ledled Gwent.

"Mae llawer mwy na'r hyn yr ydym ei weld...y rhai na fyddant yn riportio; roeddent yn teimlo'n rhy ofnus i riportio." (P30)

Ar hyn o bryd, gellir dirnad mynychder VAWDASV yng Ngwent yn bennaf trwy ffynonellau data sydd ar gael yn gyhoeddus gan Heddlu Gwent, y Swyddfa Gartref, a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r data hyn yn is-set fechan o'r holl bobl y mae VAWDASV yn ein cymunedau yn effeithio arnynt, ond gall gynnig cipolwg defnyddiol ar risg sy'n gwaethygu.

Mae data a ddarparwyd gan Heddlu Gwent yn dangos data ynghylch digwyddiadau, troseddau ac arestiadau ar gyfer 2024/25 yn ôl Awdurdod Lleol.



Ffigur 5: Cyfradd digwyddiadau, a/neu droseddau, a/neu arestiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth (16 oed+) ar gyfer (a) cam-drin domestig, (b) troseddau rhywiol, (c) aflonyddu, a (d) stelcio yn ôl awdurdodau lleol yng Ngwent yn ystod 2024/25 (Heddlu Gwent, 2025)

Mae cyfradd y digwyddiadau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2024/25 yn sylweddol (33.3 digwyddiad fesul 1,000 o'r boblogaeth), o'i gymharu â chyfradd y troseddau (16.9 trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth), a chyfradd yr arestiadau (6.1 arestiad fesul 1,000 o'r boblogaeth). Yn bwysig iawn, ni fydd pob digwyddiad a gofnodwyd gan yr heddlu yn bodloni trothwyon ar gyfer trosedd neu ar gyfer camau gweithredu pellach megis arestio. Fodd bynnag, gall y digwyddiadau hyn fod yn arwyddion rhybudd cynnar ar gyfer ymddygiad sy'n gwaethygu, neu'n gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Yng Ngwent, roedd y cyfraddau uchaf o gam-drin domestig, aflonyddu a stelcio a gofnodwyd yn ystod 2024/25 ym Mlaenau Gwent, ac roedd y gyfradd uchaf o droseddau rhywiol a gofnodwyd yn Nhorfaen (5.40 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth).

Mae'r setiau data hyn yn cyflwyno cyfrolau o ddigwyddiadau sydd wedi'u riportio i'r heddlu ac yr erlynwyd rhywun yn eu sgil o bosibl, felly maent yn is-set o'r holl bobl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt bydd llawer o ddioddefwyr a goroeswyr yn anfodlon hysbysu'r heddlu am eu profiadau.

"Er ein bod ni'n defnyddio data'r heddlu ac yn dibynnu ar ddata'r heddlu, ceir carfan gyfan o ddioddefwyr sy'n anfodlon mynd at yr heddlu, sy'n anfodlon riportio

digwyddiadau neu hysbysu'r heddlu amdanynt, felly bydd y nifer honno bob amser yn llawer mwy na'r nifer a welwn ar bapur." (P29)

Cafodd y model a gynhyrchwyd gan SafeLives yn 2026 ei ddatblygu fel offeryn i wella dealltwriaeth o fynychder VAWDASV, ac mae'n amcangyfrif bod 37,500 o bobl sy'n byw yng Ngwent wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol. O blith y rhain, nid yw 72% (26,000 o bobl) yn hysbys i wasanaethau ac maent yn ddioddefwyr 'anweledig' (SafeLives, 2026). Yn bwysig iawn, mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â cham-drin domestig yn unig ac nid ydynt yn cynnwys mathau eraill o VAWDASV. Mae'n debygol felly bod yr amcangyfrifon hyn yn tanamcangyfrif lefelau llawn VAWDASV a brofir ledled Gwent.



Ffigur 6: Amcangyfrif o fynychder cam-drin domestig ar gyfer cyfanswm y dioddefwyr sy'n oedolion (16+), â ffigurau ynghylch y rhai sy'n anweledig (SafeLives, Ionawr 2026)

Mae cymaint ag un o bob tair menyw ag anabledd (32%) ac un o bob pedwar dyn ag anabledd (25%) sy'n byw yng Ngwent wedi profi cam-drin domestig. Yn ychwanegol, amcangyfrifir bod cam-drin domestig wedi effeithio ar un o bob pump o fenywod (20.1%) ac un o bob saith (14.4%) o ddynion sy'n rhan o'r gymuned LHDTCRhA+ yng Ngwent.



Ffigur 7: Amcangyfrif o nifer y dioddefwyr cam-drin domestig yng Ngwent (SafeLives, Ionawr 2026)

Mae sicrhau y gwyddys mwy am y sawl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt yng Ngwent yn allweddol o ran lleihau niwed, yn uchelgais Gwent i atal VAWDASV, i osgoi gwaethygu risgiau trwy ymyrraeth gynnar, ac wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn disgrifio'r ddarpariaeth VAWDASV bresennol ledled Gwent, demograffeg ac anghenion y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau, a chyfleoedd ar gyfer dyfodol gwasanaethau VAWDASV yng Ngwent.



Darpariaeth VAWDASV gyfredol yng Ngwent

Yn yr adran hon, ceir map o wasanaethau ledled Gwent, a chrynodebau o bob gwasanaeth a gyflwynodd ddata ar gyfer yr asesiad hwn. Ble mae'r data hynny ar gael, cyflwynir data am nifer y cysylltiadau a chanlyniadau ar gyfer pob gwasanaeth i gynorthwyo i ddeall y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi nad yw lefel y defnydd o wasanaeth yn cyd-fynd â lefel yr angen am wasanaeth bob tro. Mae hynny'n golygu y gall anghenion heb eu diwallu fodoli (ac maent yn bodoli) er bod gwasanaethau ar gael.

Trosolwg o wasanaethau yng Ngwent

“Mae gwasanaethau sydd eisoes ar gael yn gweithio'n dda...lloches, allgymorth, cymorth lle bo’r angen, gwasanaethau plant a phobl ifanc a rhaglenni ar gyfer grwpiau.” (P16)

Mae'r map isod yn cyflwyno’r ddarpariaeth gan wasanaethau VAWDASV sydd ar gael ledled holl ardaloedd Gwent. Gellir canfod mapiau gwasanaethau penodol yr Awdurdodau Lleol yn Atodiad B. Mae'r mapiau lleol hyn yn dwyn sylw at y ffaith y ceir amrywioldeb nodedig yn y ddarpariaeth gan wasanaethau rhwng awdurdodau lleol, gan greu loteri cod post i ddioddefwyr a goroeswyr ledled Gwent yn dibynnu ardal paw awdurdod lleol y maent yn byw ynddi.

Fel arfer, disgrifir gwasanaethau VAWDASV effeithiol fel rhai sy'n ystyriol o drawma, yn canolbwyntio ar y goroeswyr, yn cael eu llywio gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, yn gyfannol ac yn groestoriadol. Maent yn cydnabod effaith trawma, yn blaenoriaethu diogelwch a grymuso, yn ymateb i anghenion a hunaniaethau amrywiol dioddefwyr a goroeswyr, ac yn cynnig cymorth cydlynol ar draws asiantaethau i fynd i'r afael ag effeithiau eang cam-drin.[55].

“Ceir ymrwymiad gwirioneddol i sicrau bod pawb yn cydweithio ac rwy’n teimlo bod hynny’n gweithio’n dda iawn yng Ngwent.” (P1)

[55] Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU



Ffigur 8: Map Gwasanaethau 1 – Gwasanaethau ledled Gwent

Cynhadledd Asesu Risgiau Amlasiantaethol (MARAC)

Mae MARAC yn gyfarfod i rannu gwybodaeth am yr achosion o gam-drin domestig ble ceir y risg fwyaf. Mae 270 o MARACs yn gweithredu ledled y DU, ac yng Ngwent, ceir 5 MARAC, un fesul awdurdod lleol. Yn y cyfarfodydd hyn, ceir cynrychiolwyr yr Heddlu, gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs), y Gwasanaeth Prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol neu wirfoddol. Byddant yn rhannu gwybodaeth berthnasol sydd ganddynt am ddioddefwr, yn trafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y dioddefwr, ac yn creu cynllun gweithredu cydlynol.

"Pan fyddwch chi yn y cyfarfod [MARAC] ac yn gwybod bod pobl eraill wedi cael hyfforddiant, bydd yn teimlo'n fwy cynhwysol...Byddwch yn gwybod y cewch gymorth gan bawb arall o amgylch y bwrdd." (P11)



Ffigur 9: Nifer yr achosion a drafodwyd, achosion a drafodwyd fesul 10,000 o fenywod sy'n oedolion, a chanran yr achosion ailadroddus a drafodwyd mewn MARACs a gynhaliwyd yng Ngwent, yn ôl blwyddyn, ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2024/25 (SafeLives[56])

Nid yw data MARAC yn cynrychioli dioddefwyr y mae eu sefyllfaoedd wedi'u hasesu fel rhai risg ganolig neu safonol. Yn 2024/25, trafododd MARACs a gynhaliwyd ledled Gwent 1,545 o achosion risg uchel. Roedd hynny'n gynnydd o 41% yn nifer yr achosion o'i gymharu â 2019/20. Mae SafeLives yn amcangyfrif, ar sail maint poblogaeth Gwent, y dylai pum MARAC Gwent drafod 990 o gyfeiriadau bob blwyddyn - mae'r nifer yn llawer uwch na hynny.

"Mae MARAC yn ymrwymiad enfawr ... gall rhai o'r MARACs bara drwy'r dydd...byddwch yn gwrando ar 20-25 o MARACs mewn diwrnod" (P28)

Cafodd MARAC ddwy ran o dair o gyfeiriadau Heddlu Gwent. Roedd tri deg y cant o'r achosion a drafodwyd yn MARAC yn 2024/25 wedi cael eu trafod yn flaenorol gan y grŵp amlasiantaethol, sy'n dangos y gellir cyfeirio dioddefwyr yn ôl i MARAC ar ôl asesu bod eu sefyllfa yn un risg uchel ar adeg arall os na fydd eu sefyllfa'n gwella neu bydd eu sefyllfa yn gwaethygu.

[56] Our quarterly Marac data - SafeLives

“Rwy’n teimlo bod y MARACs yn effeithiol...mae’n gyfle i gael clywed llais y dioddefwr rydych chi’n ei gynorthwyo a sicrhau bod eich holl bryderon yn cael eu hystyried.” (P30)

Gwasanaeth Cynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA)

Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn arbenigwyr hyfforddedig sy'n cydweithio â llu o wasanaethau eraill i gynnig cymorth a diogelwch i'r sawl sydd mewn perygl sylweddol o brofi niwed difrifol oherwydd cam-drin domestig.



Ffigur 10: Cyfanswm y cyfeiriadau at y gwasanaeth IDVA, achosion wedi’u cau gan y gwasanaeth a ffynonellau cyfeiriadau ato yng Ngwent yn ystod 2025/26

Yn ystod 2025/26, cafwyd 1,639 o gyfeiriadau at wasanaeth IDVA Gwent a chaewyd 1,577 o achosion. O blith cyfanswm y cyfeiriadau, cafwyd y rhan fwyaf gan yr Heddlu (61%), ac yna gwasanaethau iechyd (19%), a sefydliadau’r trydydd sector (7%). O'i gymharu â setiau data cenedlaethol ynghylch cyfeiriadau at IDVA ledled Cymru a Lloegr, mae'n amlwg bod Heddlu Gwent a gwasanaethau iechyd yng Ngwent yn cyfeirio llawer mwy o ddioddefwyr at y gwasanaeth IDVA na'r cyfartaleddau cenedlaethol (mae cyfartaledd cenedlaethol yr heddlu yn 46% ac mae cyfartaledd gwasanaethau iechyd yn 2%)[57].



Ffigur 11: Rhesymau gwasanaeth IDVA dros beidio ag ymgysylltu ac amser cymorth gan y gwasanaethau (sylwer, efallai na fydd y % yn gyfanswm o 100% yn sil talgrynnu) yng Ngwent yn ystod 2025/26

Ar lefel genedlaethol, mae SafeLives yn adrodd bod 89% o gyfeiriadau at wasanaethau IDVA yn 2025 wedi arwain at ganlyniad 'heb ymgysylltu'. Mae hyn yn sylweddol is yng Ngwent; fe wnaeth 39% o gyfeiriadau a gafodd y gwasanaeth yn 2025/26 arwain at ganlyniad 'heb ymgysylltu' oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau. Yn amlach na dim, nid

[57] Idva-Annual-Dataset-2025.pdf

oedd y cleient yn dymuno cymorth (36% o gyfeiriadau â chanlyniad 'heb ymgysylltu'), neu nid oedd y gwasanaeth yn gallu cysylltu â'r cleient (30%). Nid oedd un o bob chwe chyfeiriad â chanlyniad 'heb ymgysylltu' yn achosion a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig (cyfeiriadau amhriodol, 16%), ac yn achos un o bob chwe chyfeiriad ychwanegol, roedd y cleient eisoes yn cael cymorth gan wasanaethau cam-drin domestig eraill (16%). Cafodd y rhan fwyaf o achosion gwasanaeth IDVA yng Ngwent eu cau o fewn 12 mis (89% o achosion), ac roedd angen cymorth tymor hwy yn achos un o bob deg ohonynt.

“Rydym yn cydweithio’n agos yn y ffordd orau â’r IDVAs (Iechyd)...maent yn adnodd gwych i ni...buaswn i'n dweud bod y gwasanaeth IDVA yn gweithio'n hynod o dda.” (P41)



Ffigur 12: Metrigau canlyniadau gan gleientiaid a gafodd gymorth llawn yng Ngwent yn ystod 2025/26

Bydd y gwasanaeth IDVA yn cynorthwyo cleientiaid hyd nes y gellir ystyried na fydd eu hamgylchiadau'n rhai risg uchel. Gellir cyfeirio cleientiaid at wasanaethau eraill os bydd ganddynt anghenion heb eu diwallu ar ôl cael cymorth. Adroddodd y mwyafrif helaeth o gleientiaid a gafodd gymorth gan wasanaeth IDVA yn 2025/26 am welliannau ar draws metrigau canlyniadau allweddol, er enghraifft, teimlo'n fwy gwybodus a grymus i weithredu, ymdeimlad cryfach o ddiogelwch, a gwell iechyd a lles.

“Mae hi'n IDVA yng Ngwent...mae hi’n werth y byd. Bydd hi’n gwneud llawer mwy na’r disgwyl i unrhyw un y bydd hi’n eu cynorthwyo.” (LE2)

Yn ogystal â gwelliannau o fewn mesurau canlyniadau a adroddwyd gan wasanaethau, disgrifiodd cyfranwyr â phrofiadau bywyd sut y gwnaeth cymorth gan wasanaeth IDVA eu helpu i lywio newidiadau yn eu hamgylchiadau.

“Fy IDVA - nid gweithiwr cymorth yn unig oedd hi, daeth hi’n angor i mi... [fe wnaeth hi] gerdded wrth fy ochr drwy gydol y daith honno, drwy ddatganiadau’r heddlu, y llys a’r brwydrau diddiwedd am wasanaethau tai. Eisteddodd hi gyda fi pan aeth pethau’n nos arnaf i, atgoffodd hi fi fod fy ngwirionedd yn bwysig, ac fe wnaeth hi sicrhau na wnes i ddisgyn trwy'r craciau.” (LE5)

Cymorth i Fenywod Cyfannol

Gall oedolion, plant a phobl ifanc gyrchu ystod o wasanaethau a gynigir gan Gymorth i Fenywod Cyfannol ledled Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys llety, gwaith grŵp, gwasanaethau cymunedol, Horizon (cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol) a chymorth i blant a phobl ifanc. Cynigir gwasanaethau ychwanegol megis Ar Trac (cynorthwyo plant a phobl ifanc), Boost (cynorthwyo'r sawl sydd â phrofiadau bywyd), a Tabw (cynorthwyo'r sawl sydd wedi profi camdriniaeth a gyflawnwyd gan yr heddlu) trwy gydweithrediad ag asiantaethau partner.

"Mae gennym ni rywfaint o asiantaethau da iawn sy'n gweithio gyda dioddefwyr a chyflawnwyr. Mae staff Cymorth i Fenywod a Phoenix yn gweithio ein hardal. Felly maent yn cyflawni gwneud llawer o waith da." (P19)



Ffigur 13: Buddiolwyr gwasanaethau a ddarparwyd gan Gymorth i Fenywod Cyfannol yn ystod 2024/25

Gwasanaethau cymunedol (1,379 o oedolion) a Horizon (504 o oedolion, plant a phobl ifanc) oedd y gwasanaethau a gafodd y nifer fwyaf o gleientiaid yn ystod 2024/25.

"Cymorth i Fenywod...mae ganddynt lochesi sy'n...helpu menywod i ffoi rhag sefyllfaoedd pan fo hynny'n ofynnol...maent yn hynod o gefnogol." (P42)

Bydd y gwasanaethau llety a ddarperir gan Cyfannol yn cael niferoedd amrywiol o gleientiaid bob blwyddyn oherwydd galw a hygyrchedd anrhagweladwy. Caiff y ddarpariaeth ei phennu gan ffactorau megis paru unigolion a/neu deuluoedd â llety priodol, ynghyd â'r angen i gynnig y llety am gyfnodau amrywiol, a'r amser sydd ei angen i ganfod rhywle parhaol i symud ymlaen iddo.

Cam-drin Domestig a Gwasanaethau Penodol i Rywedd Llamau

"Rydw i wedi cael cymorth da iawn gan fy IDVA a gan Llamau hefyd." (LE3)

Mae Llamau yn elusen sy'n cynnig ystod o wasanaethau ledled Cymru, ac mae'n gweithio gyda menywod, dynion, plant a phobl ifanc sy'n profi digartrefedd, neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae rhwng 25% a 33% o'r achosion o ddigartrefedd yn y DU yn gysylltiedig â cham-drin domestig[58], felly mae llawer o'r bobl sy'n ceisio cymorth gan Llamau i ddiwallu anghenion tystiolaeth wedi profi cam-drin domestig neu fathau eraill o VAWDASV.

"Rhwng y tri ohonynt [IDVA, ISVA a Llamau], fe wnaethant gynnig sefydlogrwydd i mi pan nad oedd gen i unrhyw sefydlogrwydd. Fe wnaethant weithio'n dawel ond yn ddi-baid yn gwneud galwadau, gan holi am ymatebion a'm hamddiffyn rhag dod yn ddigartref neu gael fy amlygu i fwy o berygl." (LE5)



Ffigur 14: Cam-drin Domestig a gwasanaethau penodol i rywedd Llamau: allgymorth lle bo'r angen a llochesi yng Ngwent (2024/25)

Yn ystod 2024/25, gwasanaeth allgymorth lle bo'r angen Llamau oedd yr un y gwnaed y defnydd mwyaf ohono. Fe wnaeth y gwasanaeth dderbyn 286 o geisiadau. Mae llety â chymorth penodol i rywedd Llamau yn cynnwys pum uned, sy'n gweithredu ar gapasiti llawn. Mae pob un o wasanaethau cam-drin domestig a phenodol i rywedd Gwent yn adrodd am ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â llety, er y gall canfod llety priodol i'r sawl sydd yn y llety â chymorth penodol i rywedd fod yn heriol, ac mae hynny'n cyfyngu ar y gallu i i ymateb i gyfeiriadau newydd. Yn ogystal â'r gwasanaethau craidd a

[58] What Works Evidence Notes: Domestic Abuse and Homelessness

amlygir uchod, mae Llamau yn cynnig rhaglen chwe wythnos o'r enw Dechreuadau Newydd i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n fenywod. Bydd pob sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau ar ymddygiadau sy'n rhan o gwmpas cam-drin domestig ac yn cynnig gwybodaeth am effaith hynny ar ddioddefwyr a goroeswyr, dulliau ymdopi, rhianta a hawliau menywod. Mae'r cyd-destun grŵp yn cynnig lle diogel a chefnogol i fenywod rannu profiadau a meithrin gwydnwch.

"Llamau - Rydw i wedi cwblhau'r cwrs Dechreuadau Newydd, ac roedd hynny'n brofiad hollol anhygoel. Dyna pryd wnes i lwyddo i ddeall y sefyllfa yn iawn. Ac oni bai am hynny, nid wyf i'n credu y byddwn i wedi gadael." (LE3)



Ffigur 15: Mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleientiaid Llamau ar ôl cael cymorth yng Ngwent yn ystod 2023/24 a 2024/25

Yn dilyn cymorth gan Llamau yn 2024/25, roedd 98% o'r rhai a gwblhaodd y mesurau canlyniadau yn teimlo'n fwy diogel; roedd 97% yn teimlo bod lefel y risg wedi'i lleihau, a nododd 96% fod ganddynt ansawdd bywyd gwell. Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd gymorth gan Llamau fod ganddynt gynllun i adael sefyllfa gamdriniol (87% yn 2024/25). Dywedodd llai o bobl fod eu hincwm wedi'i fwyafu (62%), sy'n pwysleisio pa mor gyffredin yw rhwystrau ariannol i'r rhai sy'n ceisio cymorth.

"Fe wnaeth Llamau ymyrryd a gwneud llawer o waith gyda fy mab hynaf. Mae hynny wedi cyflawni rhyfeddodau. Mae'n gwneud yn wych erbyn hyn." (LE3)

Gwasanaeth New Pathways (ISVA a SARC)

Mae New Pathways yn cynnig gwasanaethau a chymorth i'r sawl sydd wedi profi trais rhywiol, gan gynnwys gwasanaethau therapiwtig a chwnsela, gwasanaeth Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA), a chymorth yn ystod argyfyngau yng Nghanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) Gwent.

“Pan es i drwy’r SARC, roedd yn un o ddiwrnodau anoddaf fy mywyd. Roedd y nyrs a'r tîm yn hynod broffesiynol a thosturiol ... fe wnaethant fy nhrin ag urddas a gofal ar adeg pan oeddwn i'n teimlo fy mod i wedi fy amddifadu'n llwyr o hynny ... Roeddent yn fy nirnad fel unigolyn, nid fel tystiolaeth yn unig.” (LE5)



Ffigur 16: Cyfeiriadau at a nifer yr achosion yn llwyth achosion gwasanaeth Cwnsela New Pathways, y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, a’r gwasanaeth Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc (2024/25 a 2025/26)

Yn 2025/26, cafodd Gwasanaeth Cwnsela New Pathways 546 o gyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion 114 o gyfeiriadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. O ran cymorth gan y gwasanaeth SARC/ISVA, cafwyd 530 o gyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion a 164 o gyfeiriadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn ystod 2025/26.

“Oni bai am New Pathways, dw i ddim yn credu y byddwn i yma. Nid oherwydd nad oeddwn i’n dymuno bod yma, ond oherwydd popeth a ddaeth i’r amlwg yn sgil fy natgeliad, roedd hynny’n hynod o lethol ac roedd y meddyliau a’r teimladau mor ymwthiol, allwn i ddim ymdopi â hwy.” (LE4)

Yn bwysig, nid yw ffigurau cyfeiriadau yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol achosion a adroddir gan weithwyr proffesiynol, sy’n gofyn am frysbennu, diogelu a chymorth cofleidiol ychwanegol. Dywedodd cydweithwyr yn New Pathways y byddai cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn digwydd fel arfer o ran nifer y cyfeiriadau at wasanaethau, ond mae cymhlethdod cynyddol mewn achosion wedi arwain at restrau aros hir a gallai hynny fod yn rhwystr a fyddai’n atal partneriaid rhag anfon cyfeiriadau newydd.

BAWSO

Mae BAWSO yn cynnig gwasanaethau arbenigol ledled Cymru i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol, masnachu pobl, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, a cham-drin ar sail Anrhydedd. Mae gwasanaethau BAWSO yn cynnwys rhwydwaith llety diogel, darpariaeth llochesi arbenigol i fenywod na allant hawlio arian cyhoeddus (NRPF), cymorth pwrpasol i ddioddefwyr a goroeswyr caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, gwasanaethau cymunedol, a rhaglenni adfer arbenigol.

“Yr holl rwystrau y maent eu hwynebu os ystyriwch bethau megis FGM, BME, diwylliant, crefydd, priodas dan orfod, yr holl bethau hynny.” (P30)

Nod y sefydliad yw mynd i'r afael â'r rhwystrau cymhleth a chroestoriadol a all atal dioddefwyr a goroeswyr rhag cael diogelwch, cyfiawnder a gallu adfer yn yr hirdymor. Mae llawer o'r bobl a gynorthwyir gan BAWSO yn profi sawl math o gamdriniaeth yn rheolaidd, ac mae hynny'n gofyn am ymyriadau sy'n ymatebol i ddiwylliant, sy'n ystyriol o drawma ac yn arbenigol iawn.



Ffigur 17: Cyfanswm y cyfeiriadau, nifer y bobl a gynorthwywyd a'r risg wrth gychwyn defnyddio gwasanaethau BAWSO yn ystod 2023/24 a 2024/25

Cynyddodd nifer y cyfeiriadau at wasanaethau BAWSO, ynghyd â nifer yr unigolion a gynorthwywyd, yn 2024/25, gan adlewyrchu galw cynyddol a gwelliannau o ran hygyrchedd gwasanaethau. Cafwyd cyfran is o achosion risg uchel ac aseswyd fod lefel risg y mwyafrif (41%) yn ganolig. Mae hyn yn dangos bod gwasanaethau'n ymgysylltu'n gynyddol ag unigolion yn gynharach yn y cylch uwchgyfeirio, gan awgrymu llwybrau cyfeirio cryfach ac ymyrraeth gynnar fwy effeithiol.

"Pobl yn hanu o gymunedau BME a BME...nid ydynt o reidrwydd yn dymuno gadael eu teulu. Y cam-drin y maent yn ei ddioddef yw'r broblem. Maent yn ofni y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'u plant. Maent yn ofni y bydd rhywun yn mynd â'u plant oddi arnynt." (P30)

Rhwystrau rhag gallu cynnig gwasanaethau effeithiol

Nodwyd sawl rhwystr rhag cynnig y gwasanaethau gorau posibl drwy ddata gwasanaethau a dirnadaethau a gasglwyd gan weithwyr proffesiynol, dioddefwyr a goroeswyr a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cymorth yng Ngwent. Mae'r rhain yn cynnwys capasiti annigonol gan wasanaethau i ddiwallu anghenion, heriau o ran cyrchu cymorth ynghylch gwasanaethau tai ac effaith cylchoedd ariannu byrdymor a dulliau comisiynu anghysylltiedig.

"Y cymorth rwyf wedi'i gael erbyn hyn ar ôl brwydro'n ddiddiwedd am ychydig o flynyddoedd. Ni ddylai fod yn rhaid i chi frwydro. Nid oes digon o gymorth ar gael i bobl pan mae arnynt angen hynny. Nid oes unrhyw beth ar gael a bydd yn rhaid i chi aros, a gallai aros olygu y bydd hi'n rhy hwyr ... ac ni fydd pobl yn dymuno bod yma mwyach ... Ac nid oedolion yn unig sy'n teimlo felly." (LE3)

Capasiti gwasanaethau

“Mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn wynebu rhestrau aros enfawr.” (P18)

Mae'r gwasanaethau a amlinellir yn y JSNA hwn yn cynnig cymorth hanfodol i bobl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt ledled Gwent gan weithredu ar gapasiti llawn. Yn sgil hynny, dywedir bod rhestrau aros hir yn gyffredin. Gall hynny leihau parodrwydd dioddefwyr a goroeswyr i ymgysylltu â chymorth oherwydd, er y gall unigolion deimlo eu bod yn barod i geisio cymorth pan fyddant yn estyn allan am y tro cyntaf, gall oedi danseilio eu hyder a'u parodrwydd i gyfranogi. Mae'r heriau hyn yn effeithio ar wasanaethau i oedolion a phlant, ac mae’r pryderon yn neilltuol o ddifrifol i bobl ifanc.

“Mae’r cam cyntaf hwnnw ynglŷn â phenderfynu mynd ac efallai gorfod siarad neu wrando ar hynny gydag eraill yn frawychus, ac os na fyddwch chi’n gallu gwneud hynny ar y pryd, gellir colli’r cyfle hwnnw a bydd pobl yn gorfod aros.” (P16)

“Oherwydd galw mawr neu ddiffyg capasiti, ceir rhestr aros a pherygl o golli rhywun oherwydd byddant wedi gorfod aros yn rhy hir.” (P16)

“Mae’r rhestrau aros yn hir iawn i alluogi pobl ifanc weld unrhyw un ynghylch eu hanghenion iechyd meddwl.” (P13)

Gall oedi cyn cael cymorth waethygu iechyd a lles dioddefwyr a goroeswyr, gan gynyddu trallod seicolegol, ac yn achos rhai, gall gyfrannu at hunan-niweidio neu hel meddyliau hunaleiddiol.

“Gorau po gyntaf y gall pobl gael y cymorth oherwydd bydd hynny’n mudlosgi tu mewn i chi ac yn achosi problemau eraill.” (LE4)

Llety

“Nid yw rhai o’r mathau o lety a thai y gosodir pobl ynddynt yn addas nac yn ddiogel. Rydw i wedi gweithio gyda goroeswyr sy'n aml yn dewis byw ar y strydoedd yn hytrach na chael eu lleoli yn y llety.” (P40)

Ynghyd â darparu llochesi, mae gwasanaethau tai sy'n canolbwyntio ar oroeswyr a digartrefedd yn allweddol o ran darparu ymateb cymunedol cydlynol i VAWDASV, gan alluogi dioddefwyr i adael sefyllfaoedd camdriniol yn ddiogel. Mae gallu cael llety diogel a phriodol wedi'i nodi fel un o’r heriau allweddol yng Ngwent. Mae prinder lleoedd mewn llochesi, llety dros dro a llety symud ymlaen yn aml yn golygu mai ychydig iawn o ddewisiadau sydd gan ddioddefwyr a goroeswyr, neu nad oes ganddynt unman i fynd o gwbl.

“Dywedwyd wrthyf y gallwn gael fy lleoli mewn llety cymysg dros dro am hyd at 18 mis, ynghyd â phobl sydd wedi gadael y carchar neu bobl â phroblemau cyffuriau. Risg arall oedd hynny, nid cynnig diogelwch.” (LE5)

Gall canfod llety fod yn frwydr, ond nodwyd bod angen trefniadau penodol ar sawl grŵp o bobl, gan gynnwys pobl ag anableddau, problemau symudedd ac anghenion ysbrydol

neu ddiwylliannol. Nodwyd hefyd fod goroeswyr sydd â swyddi cyflogedig yn grŵp yn grŵp y mae arnynt angen cymorth wedi'i deilwra mewn perthynas â llety oherwydd ni fydd y rhai sy'n ceisio diogelwch o reidrwydd yn bodloni'r holl drothwyon i fod yn gymwys i gael cymorth i ganfod llety..

"Efallai bod angen tai penodol ar gyfer pobl ag anghenion diwylliannol ac ysbrydol. Nid eu gwahanu fydd diben hynny o gwbl, ond, yn fy marn i, i sicrhau na chânt eu cam-drin yn hiliol. Gellid diwallu eu hanghenion diwylliannol ac ysbrydol, oherwydd mae hynny'n bwysig. Eu cymuned hwy yw hynny, a byddent yn cael eu hynysu oddi wrthynt." (P42)

"Mae angen mwy o opsiynau llety diogel a chyfrinachol i oroeswyr sy'n gweithio neu rai sydd â chynilion cyfyngedig - oherwydd ni ddylai diogelwch ddibynnu ar eich incwm." (LE5)

Dywedodd gwasanaethau fod llawer o'r cleientiaid hŷn sydd ag anghenion llety wedi sefydlu sefydlogrwydd ariannol, wedi cynllunio at eu hymddeoliad ac wedi cronni eu hasedau, felly gall llywio llety dros dro a lloches fod yn fwy cymhleth.

"Mae llawer o bobl hŷn yn cael eu cyfeirio atom ni, er enghraifft, pobl yn eu 70au a'u 80au. Maent yn berchen ar eu cartrefi. Ni fyddant yn dymuno gorfod gadael i fynd lety dros dro, ac maent wedi dweud eu bod wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ganddynt gartref." (P9)

Mae'r diffyg lleoedd mewn llochesi ynghyd â'r prinder tai ledled Gwent yn golygu na fydd dioddefwyr a goroeswyr gallu symud ymlaen yn aml o leoliadau dros dro neu anaddas.

"Ni all pobl symud ymlaen o loches o reidrwydd oherwydd diffyg tai." (P44)

Cyllido a chomisiynu

"Meddwl heb orwelion, byddai pot diwaelod o arian ar gael a byddai gwasanaethau ar gael yn ddiddiwedd ym mhob awdurdod lleol i bob menyw, i bob dyn, i bob plentyn." (P21)

Nodwyd bod diffyg gwasanaeth cyson a theg ar gael i bawb y mae VAWDASV yn effeithio arnynt - menywod, dynion, plant a phobl ifanc, dioddefwyr a chyflawnwyr. Nodwyd prosesau ariannu a gwahaniaethau o ran blaenoriaethau lleol fel ffactorau sy'n sbarduno amrywiad yn y gwasanaethau a gynigir i drigolion ledled Gwent. Daw hynny'n amlwg wrth edrych ar y mapiau gwasanaethau ar gyfer pob ardal awdurdodau lleol (Atodiad B) - mae gwasanaeth penodol ar gael i drigolion mewn rhai ardaloedd, ond nid yn eraill.

"Nid oes cynnig cyson ar gael, felly pa un ai a ydych chi'n blentyn neu'n unigolyn ifanc sy'n ceisio cymorth fel dioddefwr, yn gyflawnwr sy'n ceisio cymorth, neu pa un ai a ydych chi'n ddioddefwr sy'n dymuno aros gyda'ch partner, yn ceisio diwallu anghenion llety, lloches, wyddoch chi, beth bynnag fo'ch amgylchiadau, nid oes cynnig cyson na lefel sylfaenol o wasanaethau a ddarperir ar gael yn unman." (P29)

“Fel Gwent, gallwn gydweithio’n dda fel cyfanwaith, ond yn ardaloedd yr ALl unigol, efallai bydd gwahaniaethau o ran yr hyn y byddant yn penderfynu ei wneud neu beidio ei wneud, felly yn dibynnu ar ble mae rhywun yn byw, mae’r gwasanaethau a’r cymorth sydd ar gael iddynt a’r dull o’u cyrchu yn wahanol.” (P16)

Adroddwyd bod effeithiau cyllid a chomisiynu byrdymor ac annibynadwy yn effeithio ar gynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau ledled Gwent, gan gyfrannu at broblemau o ran capasiti staff oherwydd ni all sefydliadau'r trydydd sector gynnig contractau hirdymor. Gall maes cyllid grantiau fod yn gystadleuol hefyd, a dywedodd darparwyr y trydydd sector y byddant yn aml yn canfod eu bod yn gorfod cynnig yn erbyn y naill a’r llall i sicrhau cyllid.

“Mae’n ymddangos bod y rhan fwyaf o’r rhaglenni’n cael eu hariannu gan grantiau, felly rwy’n credu eu bod yn llai sefydlog…byddant yn colli eu cyllid neu bydd eu llif cyllid yn newid, ni fyddant yn gallu cynnig y rhaglen benodol hon.” (P14)

“Y peth pwysicaf yw mwy o gyllid, cyllid cynaliadwy a thalu cyflogau heddiannol i gydweithwyr yn y trydydd sector yn unol â chyflogau’r sector cyhoeddus … gallu cynnig contractau tymor hwy a chyflogau gwell i bobl fel y gallwn ddenu'r bobl sydd â’r setiau sgiliau gofynnol.” (P17)

“Mae’n frwydr go iawn a hanner ymhlith y trydydd sector oherwydd ceir cymaint o gystadleuaeth am arian a bydd yn teimlo ar brydiau bod y gystadleuaeth yn drech na'r pwrpas.” (P08)

Demograffeg cleientiaid a’u hanghenion

Mae'r adran hon yn dwyn sylw at ba grwpiau o bobl sy'n hysbys i wasanaethau VAWDASV a’r heddlu ledled Gwent trwy amlygu’r nodweddion demograffig sy'n fwy mynych yn y data ac yn cynnig trafodaeth ynghylch y rhesymau posibl dros hynny, a beth allai fod yn sbarduno tangynrychiolaeth grwpiau eraill.

Nodweddion Demograffig

Oedran

O blith yr holl droseddau VAWDASV[59] a riportiwyd i Heddlu Gwent, roedd hanner y dioddefwyr rhwng 26 a 45 mlwydd oed (49%). Roedd proffil oedran nodweddiadol y rhai a ddefnyddiai gwasanaethau yng Ngwent yn 26 – 45 oed fwy neu lai hefyd.

[59] Mae troseddau VAWDASV yn cynnwys cam-drin domestig; troseddau rhywiol; aflonyddu; stelcio; trais ar sail anrhydedd

“Rwy'n hŷn, rwy'n 46 oed. Dydw i ddim yn cyd-fynd â llawer o'r meini prawf ar gyfer unrhyw un sy'n ifanc, a dydw i ddim yn perthyn. Fel un o ddioddefwyr nodweddiadol trais domestig, mae'n debyg.” (LE2)



Ffigur 18: Cynrychiolaeth oedran ar draws gwasanaethau

Rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd

Caiff manylion rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd eu cofnodi'n anghyson ar draws gwasanaethau yng Ngwent. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau a ddarperir yng Ngwent yn cael eu defnyddio'n amlaf o lawer gan bobl sy’n fenywod o ran eu rhyw ac yn uniaethu â’r rhywedd fenywaidd.



Ffigur 19: Rhyw a rhywedd ar draws gwasanaethau

"Mae goroeswyr gwrywaidd...braidd yn gudd. Dylai mwy o gyfeiriadau ddigwydd." (P15)

Ar sail y data sydd ar gael ynghylch gwasanaethau, gwelir bod dynion yn dal i ddefnyddio gwasanaethau yng Ngwent yn anghymesur o is na chyfradd eu profiad o gamdriniaeth. Efallai mai'r rheswm dros hynny yw'r diffyg gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo oedolion gwrywaidd.

"Rydym yn symud i loches anghenion cymhleth 24 awr lle gallwn dderbyn, nid dynion, ond bron iawn pawb arall." (T17)

Mae sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i ddynion ac yn ymatebol i'w profiadau unigryw o VAWDASV yn allweddol i gynyddu ymgysylltu a mynediad at gymorth priodol. Efallai nad yw llawer o'r gwasanaethau sydd ar gael yng Ngwent ar hyn o bryd yn briodol, er enghraifft, wrth gynorthwyo i ymateb i batrymau o gamdriniaeth a brofir fel arfer gan ddynion o'u cymharu â menywod; er enghraifft, bygwth cyfyngu mynediad at blant (84% o'r ymatebwyr gwrywaidd) a defnyddio plant i barhau â chamdriniaeth ar ôl gwahanu (63%)[60].

"Mae fwy neu lai pob enghraifft o drais domestig yn erbyn gwrywod rydw i wedi'i brofi...wedi ymwneud bob amser â...phlant a sut mae hi'n meddu ar y grym...i wneud

[60] Male-Victims-of-Coercive-Control-2021.pdf

cyhuddiadau yn ei erbyn ac atal y plant rhag eu gweld, chwalu'r berthynas honno...atal cyswllt â'r plant a'r plant yn ei erbyn." (P32)

Ethnigrwydd

Mae diffyg cyflawnrwydd gwybodaeth am ethnigrwydd o fewn cofnodion cleientiaid yn her eang nad yw'n benodol i wasanaethau VAWDASV, er enghraifft, mae gwybodaeth am ethnigrwydd dioddefwyr yn 'anhysbys' neu 'heb ei datgan' mewn 38% o ddigwyddiadau VAWDASV a gofnodwyd gan Heddlu Gwent.



BAWSO oedd yr unig wasanaeth a nodwyd trwy fapio'r system sy'n cynnig cymorth i ymateb i VAWDASV yn benodol i gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae darparu gwasanaethau priodol yng Ngwent a'u hamlygrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cynorthwyo pawb yn gyfannol.

Statws anabledd

"Ceir rhyw fath o iechyd corfforol bob amser fel rhan o'r cymorth cyfannol hwnnw pan fyddwn ni'n cynorthwyo, pa un ai a fyddant mewn llety gyda ni neu bydd gweithwyr allgymorth yn eu cysylltu â'r gwasanaethau." (P16)



Yn 2025/26, roedd anabledd gan un o bob dau gleient a gynorthwywyd gan wasanaethau New Pathways, cyfradd (49%) sy'n sylweddol uwch nag yn achos gwasanaethau eraill. Mae hyn yn gyson â'r mynychder ar y lefel genedlaethol; mae oedolion ag anabledd bron ddwywaith yn fwy tebygol o brofi ymosodiad rhywiol (3.7% o oedolion) o'u cymharu â phobl heb anabledd (1.9% o oedolion).[61].

[61] Disability and crime, UK - Office for National Statistics

Amgylchiadau teuluol

O'r 1,558 o achosion MARAC a drafodwyd ledled Gwent yn 2025/26, nodwyd bod cyfanswm o 1,568 o blant unigol fyn byw ar aelwyd lle'r oedd y cam-drin yn digwydd.[62].

1,568
- Nifer y plant yn byw ar aelwydydd ble'r oedd cam-drin yn digwydd

27%
- canran y bobl a gafodd gymorth gan Gymorth i Fenywod Cyfannol oedd â phlant yn byw ar yr un aelwyd

"Bydd pobl yn colli plant oherwydd nid yw'r cymorth ar gael. Os byddant yn cael y cymorth a'r ymyriadau priodol, byddwch yn gwybod y gallant ddal y cyfan at ei gilydd." (LE2)

Mewn cyferbyniad, mae gwasanaethau eraill wedi cynorthwyo llai o gleientiaid â phlant ar yr aelwyd; roedd plant ar yr aelwyd yn achos 12% o'r bobl a gynorthwywyd gan BAWSO yn 2024/25. Yn anecdotaidd, mae cyfranwyr proffesiynol wedi sylwi ar dueddiadau newidiol ym mhresenoldeb teuluoedd mewn gwasanaethau, â llai o blant dibynnol.

"Teuluoedd fyddai'n dod atom ni bob amser, roedd ein llochesi yn llawn plant... Wn i ddim a oes mwy o wybodaeth neu beth bynnag...Byddwn yn gweld llawer mwy o fenywod ifanc sengl heb deuluoedd. Maent wedi priodi, ond byddant yn dod atom yn iau cyn iddynt gael eu plant." (P47)

Anghenion niferus sy'n cyd-ddigwydd

Bydd dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV yn aml yn profi nifer o anghenion cymorth cydgysylltiedig, gan gynnwys anghenion yn ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol a sylweddau. Mae angen gwasanaethau cydgysylltiedig a chyfannol sy'n ystyriol o drawma i sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion ar y pryd a'u hanghenion tymor hwy at ddibenion diogelwch ac adfer.

Camddefnyddio alcohol a sylweddau

"Rwy'n credu bod y defnydd o alcohol wedi gwaethygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, fwy na thebyg. Rwy'n credu bod y defnydd o sylweddau wedi gwaethygu yn bendant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf." (P45&P46)

Mae defnyddio alcohol a sylweddau yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dioddef VAWDASV ac yn cyflawni VAWDASV. Yn ogystal â pheri i bobl ddod yn fwy agored i

[62] Our quarterly Marac data - SafeLives

VAWDASV, gall defnyddio alcohol a/neu sylweddau weithredu fel dull ymdopi mewn ymateb i gam-drin. Fe wnaeth cyfranwyr proffesiynol ddwyn sylw yn gyson at gynnydd yn y defnydd o alcohol a sylweddau ledled Gwent, ac roedd hynny'n gynyddol amlwg mewn gwasanaethau ac yn ychwanegu at gymhlethdod amgylchiadau pobl sy'n profi VAWDASV.



"Pan fydd alcohol yn rhan o'r broses, byddwn ni'n gweld mwy o achosion o drais domestig a phethau'n digwydd yng nghartrefi pobl...mae'n ychwanegu at y cymhlethdod." (P11)

"Dyna fydd eu dull ymdopi arferol...maent yn defnyddio alcohol neu maent yn defnyddio sylweddau." (P9)

Er bod defnyddio alcohol a sylweddau yn dwysáu risgiau ac yn peri i bobl fod yn fwy agored i niwed, ni all llawer o wasanaethau ddarparu ar gyfer pobl sy'n defnyddio alcohol a sylweddau, naill ai fel rhywbeth sy'n achosi VAWDASV neu fel dull o ymdopi â phrofiadau o hynny. Daw opsiynau cymorth yn fwy cyfyngedig.

"Os bydd gennych chi fenyw sy'n profi trais domestig a bydd angen iddi fynd i rywle diogel, bydd opsiynau ar gael o ran y llefydd y gall fynd iddynt. Os bydd hi hefyd yn defnyddio sylweddau, mae'r opsiynau hynny'n gyfyngedig iawn, ac mae hynny'n rhywbeth gwallgof yn fy marn i gan ystyried pa mor gyffredin yw cam-drin domestig yn y meysydd hynny. (P45&P46)

"Os bydd yn rhaid iddynt ffoi, ni fyddent yn gallu ffoi i unman oherwydd byddai'r rhan fwyaf o lochesi yn ofni derbyn rhywun sy'n chwistrellu cyffuriau." (P1)

Iechyd meddwl

Ceir cysylltiad dwfn rhwng iechyd meddwl a VAWDASV. Gall cam-drin gyfrannu'n sylweddol at anghenion cymorth iechyd meddwl ar y pryd a rhai tymor hwy. Gall pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes hefyd fod mewn mwy o berygl o brofi trais[63].

[63] People with mental disorders more likely to have experienced domestic violence | Website archive | King's College London

“Ni ddaw’r difrod emosiynol i ben pan ddaw’r trais i ben - i mi, dyna pryd bydd yn dechrau dod i’r amlwg mewn gwirionedd.” (LE5)



74%
- canran cleientiaid New Pathways y cofnodwyd eu hanghenion iechyd meddwl

62%
- canran cleientiaid Llamau y cofnodwyd eu hanghenion iechyd meddwl

44%
- canran cleientiaid BAWSO y cofnodwyd eu hanghenion iechyd meddwl

“Byddwn i’n dweud bod angen rhyw fath o gymorth ag iechyd meddwl ar bob unigolyn sy’n gadael perthynas gamdriniol. Er bod meddyginiaeth yn gweithio ac yn dda, nid dyna'r ateb...os yw’n gwneud unrhyw beth, mae'n merwino eich teimladau, nid yw'n llesol. Mae'n llesol gallu bwrw eich bol ac mae cael gwrandawiad a chael eich dirnad gan eraill yn llesol.” (LE3)

Cydnabuwyd bod rôl meddyginiaeth wrth liniaru effaith VAWDASV ar iechyd meddwl yn offeryn clinigol, ond heb os, mae angen i ddioddefwyr a goroeswyr gael cymorth i allu siarad a chael eu clywed.

“Cynnydd yn nifer y cyfeiriadau...problemau iechyd meddwl...symud pobl o’r cartref ac ymgysylltu â’r gymuned... cynnydd yn anghenion cyfannol pobl.” (P17)

Pan fydd anghenion iechyd meddwl yn codi, byddant yn effeithio ar bethau eraill hefyd; mae cydweithwyr proffesiynol yn sylwi ar effaith ehangach ar ansawdd bywyd ac anghenion cyfannol. Yn ogystal â hynny, nid yw'r ddarpariaeth gan wasanaethau wedi ehangu yn unol â'r twf yn y galw am gymorth ag iechyd meddwl ac â chymhlethdod cynyddol y cyflyrau sy’n dod i’r amlwg.

“Mae’r driniaeth iechyd meddwl ofynnol rydym ni bellach yn ei chynnig ledled Gwent yn cynnwys hyd at 12 sesiwn o therapi i bobl. Rwy’n credu y gallech chi ddyblu hynny a gallech chi dreblu nifer aelodau’r tîm.” (P1)

Babanod, plant a phobl ifanc

Mae babanod, plant a phobl ifanc yn grŵp penodol na chawsant eu cynrychioli'n llawn o fewn y data gan yr heddlu a gwasanaethau a rannwyd at ddibenion y JSNA hwn. Mae

VAWDASV yn effeithio ar fabanod, plant a phobl ifanc, ac mae'r adran 'amgylchiadau teuluol' uchod yn dwyn sylw at faint o gleientiaid sydd â phlant yn eu cartrefi. Yn unol ag Adran 3 y Ddeddf Cam-drin Domestig[64], bydd plant yn ddioddefwyr os bydd cam-drin domestig yn digwydd yn eu cartref. Gall babanod a phlant hefyd brofi effeithiau uniongyrchol neu gall un rhiant eu defnyddio fel 'arf' yn erbyn y llall.



Efallai y bydd angen i fabanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin gael cymorth ar hyd eu hoes

"Roedd e yn fy mol i ar y pryd. Ac maent yn dweud ei fod e wedi profi hynny ac roedd e'n ifanc." (LE2)

Gall cam-drin effeithio ar fabanod, plant a phobl ifanc o bob oedran, gan gynnwys plant yn y groth. Gall profiad o gam-drin effeithio ar blentyn ar draws cwrs bywyd, beth bynnag fo'u hoedran, er y bydd natur a difrifoldeb yr effeithiau hyn yn amrywio o'r naill unigolyn i'r llall.

"Mae'n ffaith ei fod yn effeithio mewn ffordd niweidiol iawn ar weddill eu bywydau…beth fyddant yn ei brofi fel plentyn…yn newid cyfeiriadur eu bywyd cyfan." (LE3)

Fe wnaeth gweithwyr proffesiynol ddisgrifio angen am gymorth i deuluoedd sy'n profi cymhlethdodau cynyddol o ran anghenion plant a phobl ifanc ar eu haelwyd.

"Mae ein teuluoedd yn dod yn fwy cymhleth o safbwynt plant ac mae cyfeiriadau'n fwy cymhleth." (P21)

Er bod dod i gysylltiad â cham-drin yn gysylltiedig â risg uwch o brofi iechyd, lles a chanlyniadau cymdeithasol salwch, nid yw profiadau plant yn unffurf, a bydd llawer yn amlygu gwydnwch pan gânt eu cynorthwyo gan berthnasoedd diogel, sefydlog ac anogol.

[64] Domestic Abuse Act 2021

Efallai bydd gan blant a phobl ifanc anghenion cymorth sy'n cyd-fynd â'r math o gam-drin y maent wedi'i brofi

Mae llawer o'r cymhlethdodau yn achos plant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin yn deillio o sut mae hynny'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt. Yn ogystal â phrofi cam-drin ei hun, dywedodd un goroeswr bod ei merch hefyd yn cael ei cham-drin gan y cyflawnwr.

"Roedd yn seicolegol iawn, yn rhywiol. Nid fy ngham-drin i yn rhywiol yn unig, ein merch hefyd." (LE3)

Gall babanod, plant a phobl ifanc hefyd gael eu defnyddio fel arfau mewn cartrefi ble mae cam-drin yn digwydd. Fe wnaeth un gweithiwr proffesiynol gyfeirio at y term 'dieithrio rhiant', sy'n golygu cymell plentyn yn emosiynol i ofni, neu wadu, ei riant arall.

"Mae'r term dieithrio rhieni a phryderon ble ceir cam-drin domestig yn broblem, mae hynny'n bryder sylweddol parhaus yr ydym yn ei reoli yn y gwasanaethau plant ac mae hynny'n dod yn fwy cymhleth." (P21)

Efallai y bydd angen cymorth ag iechyd meddwl a lles meddyliol ar blant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin

Gall cam-drin effeithio'n ddwys ar fabanod, plant a phobl ifanc. Daw anawsterau emosiynol, seicolegol a chymdeithasol i'r amlwg yn achos llawer o blant a phobl ifanc sydd wedi byw mewn ofn.

"O ran yr agwedd iechyd meddwl ar bethau, fel yn achos fy merch, oherwydd mae fy merch yn dal yn arswydo...bydd hi'n troi ataf i ac yn gofyn pethau fel, pam oedd e mor ffiaidd gyda fi? Pam oedd e felly?" (LE3)

Mae effeithiau a adroddwyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin yn cynnwys ymateb ofnus cynyddol, a chael trafferth addasu i ofynion trefn feunyddiol, er enghraifft, mynd i'r ysgol.

"Mae ei phlant yn amlygu arwyddion bod yn orwyliadwrus a gorbryder cynyddol ... mae gorfod ymdopi â hynny yn frawychus i blant." (P42)

"Rydym yn gweld cyfraddau llawer uwch o broblemau iechyd meddwl, lles meddyliol a thrawma, ac mae plant yn llai bodlon mynd i'r ysgol ac ymgysylltu ym mywyd yr ysgol." (P5)

I blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ofn ac yn cael trafferth ymdopi â cham-drin, ni fydd oedolion dibynadwy megis y bobl sy'n gweithio mewn ysgolion yn gwybod bob amser sut i'w cynorthwyo'n effeithiol, a bydd hynny'n gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd.

"Ysgol fy merch, maent wedi ei gadael hi'n crio oherwydd nid ydynt yn gwybod sut i ymdrin â hynny. Maent yn teimlo mor annifyr. Rydw i wedi bod yno ac wedi dweud,

felly oherwydd y ffaith eich bod chi fel oedolyn yn teimlo'n annifyr...Rydych chi'n troi cefn ar y mater?" (LE3)

Mae angen i blant a phobl ifanc allu teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu profiadau trawmatig a chael cymorth yn eu cylch. Dywedodd un goroeswr eu bod wedi cael eu cam-drin plan yn blentyn ond heb ddatgelu hynny hyd at flynyddoedd lawer wedi'r digwyddiad, pan oedd yn oedolyn.

"Rwyf innau hefyd yn blentyn sydd wedi profi camdriniaeth rywiol ac fe wnes i ddatgelu hynny ddim ond tair blynedd yn ôl." (LE4)

Mae plant a phobl ifanc mewn perygl o arfer yr ymddygiadau camdriniol y maent wedi'u gweld; fel plant ac fel oedolion

Fe wnaeth cyfranwyr â phrofiad bywyd rannu'r gofid y gwnaethant ei brofi yn sgil gweld eu plant yn copïo ymddygiadau cyflawnwyr.

"Bydd yn anodd ymdopi â hynny fel rhiant, pan fyddwch chi newydd adael perthynas gamdriniol, pan fyddwch chi wedi mynd â'ch plant i le diogel, ac yna, bydd eich plentyn yn ymddwyn yn union fel y byddai [y cyflawnwr] yn ymddwyn tuag atoch chi." (LE3)

"Fy mab, bydd yn ymddwyn yn eithaf treisgar...bydd hynny'n peri gofid garw i mi...pan fydd e'n gweld y niwl coch hwnnw, mae ei nodweddion yn union fel ei dad." (LE2)

Yn y tymor hwy, mae gweithwyr proffesiynol wedi sylwi sut y gall y patrymau ymddygiad hyn waethygu ar brydiau gan beri i'r cam-drin barhau.

"Rydw i wedi gweithio gyda rhieni a gofalwyr, ac yna, efallai ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, byddaf i'n dechrau gweld y plant yn eu harddegau neu'n ddiweddarach yn amlygu patrymau a chylchoedd tebyg." (P40)

Ein gweledigaeth at y dyfodol

"Nid oes unrhyw fenyw, unrhyw blentyn, unrhyw ddyn yn haeddu profi beth wnaethom ni ei brofi... Mae hynny wedi peri niwed a wnaiff bara oes i mi. Mae wedi niweidio fy merch 20 oed mewn ffordd a wnaiff bara ar hyd ei hoes ac mae wedi niweidio fy merch fach mewn ffordd a wnaiff bara ar hyd ei hoes, a hynny oll oherwydd beth oedd rhywun yn credu y gallai ei wneud i mi." (LE2)

Nododd y gweithwyr proffesiynol, y dioddefwyr a'r goroeswyr a rannodd eu profiadau ar gyfer y JSNA hwn eu bod yn credu y gallent gynorthwyo â datblygiad sawl maes yn system VAWDASV Gwent. Daeth y themâu hyn i'r amlwg yn sgil trafodaethau ynghylch creu sefyllfa ddelfrydol yn y dyfodol ac maent yn cynnig cipolwg ar y maes ble ceir y potensial mwyaf i sicrhau gwelliannau ym marn y cyfranogwyr. Maent wedi'u crynhoi o dan y tri

phennawd thematig canlynol: amlygrwydd anghenion penodol, dull cyffredin o ymdrin â data, a diwylliant sy'n annog newid. Mae'r meysydd yr awgrymwyd y dylid eu gwella wedi'u llunio fel rhan o weledigaeth uchelgeisiol at y dyfodol, gan ddisgrifio sut yn union yn union y gallai ein cymunedau brofi systemau VAWDASV yng Ngwent a'u teimladau ynghylch y systemau hynny.

Amlygrwydd anghenion penodol
Yn y dyfodol:

Mae profiadau bywyd wedi'u gwreiddio yn y ddirnadaeth o VAWDASV yng Ngwent gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol gydnabod ac ymateb yn well i anghenion a phrofiadau dioddefwyr a goroeswyr a chymunedau a danwasanaethir sydd efallai ag anghenion penodol. Mae hynny'n cynnwys, ymhlith agweddau eraill, cyflogaeth, incwm yr aelwyd, anableddau ac amgylchiadau teuluol. Wrth nodi a chynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr, bydd gwasanaethau a staff yn ystyriol o drawma, yn ymateb yn sensitif i anghenion diwylliannol ac yn cael eu llywio gan anghenion.

Gall babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi VAWDASV yn eu teulu neu yn eu perthnasoedd personol eu hunain gael cymorth priodol sy'n diwallu eu hanghenion penodol, gan gynnwys cymorth i adfer.



"Rwy'n teimlo fel bod y plant wedi'u hanghofio...nid oed unrhyw wasanaethau cwnsela i'r plant...Dim byd...plant sy'n mynd i lochesi, mae rhywun wedi mynd â hwy o'u cartref. Maent yn byw yn eu gwely...gyda'u carthen...a'u teganau...Nid oes neb yn poeni" (LE2)

Caiff dioddefwyr hŷn eu nodi, eu cydnabod a'u cynorthwyo o fewn gwasanaethau yng Ngwent. Mae gweithwyr proffesiynol yn deall y gwahanol fathau o ymddygiadau VAWDASV y gall pobl hŷn eu profi a gallant gynnig cymorth priodol i'w hamddiffyn a'u cynorthwyo i adfer.

"Rydym wedi cael cryn dipyn o bobl hŷn yn ddiweddar ... mae hynny yn guddiedig i raddau helaeth" (P17)



Gall goroeswyr gwrywaidd geisio cymorth i fynd i'r afael â'r cam-drin y maent yn ei brofi. Mae gweithwyr proffesiynol yn deall y mathau o gam-drin y mae dioddefwyr gwrywaidd yn eu hwynebu a'u hanghenion unigryw posibl. Ceir darpariaethau priodol i gynorthwyo dioddefwyr gwrywaidd.



"Ceir diffyg ymwybyddiaeth o ddynion a chymorth iddynt yn bendant...Pan mae dioddefwyr gwrywaidd wedi troi atom ni, rwy'n credu eu bod wedi teimlo bod mwy, llawer mwy o ffocws ar fenywod" (P26)

Caiff pobl LHDTCRh+, grwpiau o gymunedau hil leiafrifedig a phobl ag anableddau eu gweld a'u cynrychioli o fewn data gwasanaethau ac wrth gynllunio i ddatblygu systemau. Mae darpariaethau addas ar waith i'w cynorthwyo yn ystod eu teithiau adfer.



"Chwilfrydedd gwell ymhlith gweithwyr proffesiynol, llai o feio dioddefwyr, herio rhagfarn ddiarwybod. Oherwydd mae'n achosi i bobl lithro drwy'r rhwyd ... byddwch chi wedi colli cyfle euraidd" (P28)

Dull cyffredin o ymdrin â data

“Yr hyn sy'n rhaid i ni geisio'i wneud yw defnyddio data heddiw i geisio rhagweld beth fydd yr anghenion yfory.” (P15)

Er mwyn deall anghenion poblogaeth Gwent yn llawn ar draws cwrs bywyd ac effaith y gweithredu ar y cyd sy'n digwydd yng Ngwent, caiff data, gwybodaeth a dirnadaethau ynghylch profiadau bywyd eu casglu a'u rhannu fel mater o drefn i lywio gwaith comisiynu, gwerthuso a gwella ansawdd effeithiol.

Yn y dyfodol:



Mae gan Gwent brotocol arfer gorau a phwrpas cyffredin sefydledig at ddiben defnyddio data oherwydd mae rhannu gwybodaeth yn offeryn diogelu hanfodol. Mae system wedi'i datblygu i alluogi rhannu data yn ddiogel ar draws pob sefydliad er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl i amddiffyn y bobl hynny y mae VAWDASV yn effeithio arnynt.



Mae rhannu dat'n effeithiol rhwng sefydliadau ac asiantaethau wedi helpu i sefydlu darlun cyfannol o VAWDASV yng Ngwent ac wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau oedd yn bodoli yn y wybodaeh ynghylch anghenion penodol a mynychder VAWDASV. Mae lleisiau'r bobl sydd wedi profi VASDAWV wedi'u hymblethu yn y data rhifiadol i ychwanegu cyd-destun a dyfnhau dirnadaethau.

“Sut rydym yn defnyddio'r data hynny i lywio ein blaenoriaethau, ein cyfeiriad a'n camau nesaf. Oherwydd, heb wneud hynny, ni fyddwn yn gwella o ran sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel i fenywod” (P29)

“Ystyrid pob adroddiad unigol ar wahân. Nid oedd hynny'n llunio'r darlun llawn ... yna, mae'n rhy hwyr” (P28)

“Bob tro y byddai'n rhaid i mi ailadrodd yr hyn a ddigwyddodd, byddai hynny'n peri i mi ail-fyw'r trawma. Mae angen dull o alluogi asiantaethau i rannu gwybodaeth hanfodol yn ddiogel, fel na fydd dioddefwyr yn cael eu gorfodi i ail-fyw'r trawma dro ar ôl tro."(LE5)"

Diwylliant sy'n annog newid

Mae systemau VAWDASV yng Ngwent yn cydnabod yr angen am ofal cyfannol hirdymor i amddiffyn a chynorthwyo dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Goroeswyr a'u hanghenion yw'r blaenoriaethau pennaf ym mhob trafodaeth a chynllun cymorth. Mae gwasanaethau VAWDASV a'r gweithlu yng Ngwent oll yn ymddwyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ystyriol o drawma ac yn dosturiol er mwyn lliniaru effeithiau trawma y mae pobl eisoes wedi'i brofi a'u hatal rhag profi rhagor o drawma.

Mae diwylliant VAWDASV yng Ngwent yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu'n rhagweithiol i atal VAWDASV, yn hytrach na dim ond gweithredu'n adweithiol pan fydd hynny digwydd. Cydnabyddir rôl bwysig plant a phobl ifanc mewn ymdrechion i newid diwylliant Gwent, ac felly, caiff blaengareddau atal sylfaenol eu targedu at ysgolion a lleoliadau eraill ble bydd plant a phobl ifanc yn chwarae, yn dysgu ac yn cymdeithasu er y caiff negeseuon ataliol eu gwreiddio.

GOFAL CYFANNOL HIRDYMOR

Yn y dyfodol:

Caiff dulliau sy'n ystyriol drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu gwreiddio ledled y system VAWDASV yng Ngwent, o'r cyswllt cyntaf hyd at gymorth parhaus yn y tymor hwy i liniaru'r perygl o brofi rhagor o niwed a thrawma. Mae'r holl staff sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV yn dosturiol ac yn ystyriol o'u hanghenion, yn deall ffactorau croestoriadol ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd a all effeithio ar brofiadau, ac maent gweithio i leiafu'r angen i ddatgelu dro ar ôl tro. Mae'r staff yn anfeirniadol ac yn barod i gynorthwyo, a byddant yn gwrando'n weithredol ar y goroeswr.

Mae llwybrau gofal VAWDASV ar waith yng Ngwent i sicrhau bod cymorth ar gael i bob goroeswr a'u teuluoedd, gan gynnwys goroeswyr risg isel a chanolig. Mae'r gofal a'r cymorth a gynigir yn gymesur, o ansawdd uchel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion presennol a'u hanghenion yn y dyfodol i'w cynorthwyo i adfer.

Mae'r llwybrau gofal yn sicrhau y caiff dioddefwyr a goroeswyr u hamddiffyn yn effeithiol rhag VAWDASV pan fydd yn digwydd, ac fel rhan o hynny, gall dioddefwyr a goroeswyr yng Ngwent gael mynediad pan fo hynny'n addas at lety priodol, gan sicrhau y gallant adael sefyllfaoedd camdriniol yn ddiogel a chael mynediad parhaus at leoedd diogel ble gallant.

Mae tryloywder yn arfer cyffredin. Caiff goroeswyr naill ai eu cynnwys mewn trafodaethau a chamau a weithredir gan weithwyr proffesiynol ar eu rhan, neu cânt y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a'r camau hynny. Mae dioddefwyr a goroeswyr yn teimlo bod eu hanghenion yn flaenoriaethau pennaf yn ystod sgyrsiau rhwng gweithwyr proffesiynol.



RHAGWEITHREDO, NID ADWEITHIOL

Yn y dyfodol:

Mae gwaith atal ac ymyrraeth gynnar yn elfennau anhepgor o ddull Gwent o ymdrin â VAWDASV a chaiff hynny ei lywio gan y gred bod hawl gan ein cymunedau i fyw heb ofn. Mae diwylliant sy'n galluogi buddsoddi mewn gweithgareddau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth ac sy'n ddigon eang i ddylanwadu'n gadarnhaol ar normau'r gymdeithas a chredoau ynghylch VAWDASV.

Mae addysg a gwaith codi ymwybyddiaeth yn offerynnau hanfodol i gynorthwyo â gwaith atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar. Ysgolion yw'r lleoliad pwysicaf i ymgymryd â gwaith atal sylfaenol.



Ein haddewid i Went

Mae Tîm Iechyd y Cyhoedd Gwent wedi cynnal dau weithdy gydag aelodau o Fwrdd VAWDASV Gwent a chadeiryddion ei is-grwpiau. Fe wnaeth y gweithdai hyn archwilio canfyddiadau'r JSNA a nodi blaenoriaethau at ddibenion gweithredu yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau'n helpu i lywio adnewyddu strategaeth y Bwrdd VAWDASV yn 2027.

Gwnaed yr ymrwymiadau canlynol er budd cymunedau ledled Gwent i gynorthwyo gweledigaeth sy'n nodi y **dylai pawb allu byw heb ofni trais**. Nodwyd y tri ymrwymiad a farciwyd â seren yn ystod y gweithdai fel meysydd sy'n flaenoriaethau i ganolbwyntio arnynt.

Rydym yn addo y bydd Bwrdd VAWDASV Gwent yn sicrhau y gwneir penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr a'r goroeswr, cydnabod ac ymateb yn well i anghenion a phrofiadau cymunedau a danwasanaethir a goroeswyr trais rhywiol.

I gyflawni hyn, byddwn yn sefydlu dulliau llywodraethu a seilwaith ategol sy'n sicrhau y bydd dulliau sy'n canolbwyntio ar brofiadau bywyd ac anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn flaenoriaethau pennaf yng ngwaith Bwrdd VAWDASV a'i brosesau gwneud penderfyniadau.

Rydym yn addo y bydd **gwaith atal ac ymyrraeth gynnar** yn elfennau anhepgor o ddull Gwent o ymdrin â VAWDASV ac y caiff hynny ei lywio gan y gred bod gan ein cymunedau hawl i fyw heb ofn.

I gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau ymrwymiad ar lefel y Bwrdd i sefydlu dull cyfannol sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth i fynd i'r afael â VAWDASV sy'n cydnabod yr angen i weithredu i fynd i'r afael â normau ac ymddygiadau cyfredol y gymdeithas sy'n peri i VAWDASV barhau ac sy'n gweithio tuag at greu'r amodau priodol i alluogi dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd i adfer.

Rydym yn addo y bydd Bwrdd VAWDASV yn cydnabod yn llawn yr angen i atal trais rhywiol yn ei waith i amddiffyn cymunedau yng Ngwent rhag effeithiau VAWDASV ac yn sicrhau tegwch o ran y gwaith hwnnw.

I gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau, wrth weithredu argymhellion sy'n cyfeirio at VAWDASV, y rhoddir ystyriaeth benodol i anghenion penodol ac amrywiol goroeswyr trais rhywiol.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

Sefydlu is-grŵp data a gwerthuso i oruchwylio a chydlynu gwaith casglu, cydlynu a dadansoddi data gwella ar draws y bartneriaeth VAWDASV er mwyn sicrhau y caiff holl boblogaethau Gwent eu cydnabod.

Sicrhau ymrwymiad ar lefel Bwrdd VAWDASV i optimeiddio arferion rhannu data ar draws y bartneriaeth, gan ddefnyddio'r is-grŵp data a gwerthuso newydd i fwrw ymlaen â chamau i weithredu trefniadau rhannu data gwell.

Rydym yn addo y bydd Bwrdd VAWDASV yn deall beth yn union yw anghenion poblogaeth Gwent ar draws cwrs bywyd ac effaith ein gweithredu ar y cyd. Byddwn yn defnyddio dirnadaethau yn deillio o **ddata, gwybodaeth a phrofiadau bywyd** i llywio gwaith comisiynu, gwerthuso a gwella ansawdd effeithiol.



Cytuno ar fanyleb dangosyddion VAWDASV Gwent a lunnir ar y cyd â phobl sydd â phrofiadau bywyd.

Datblygu dangosfwrdd data VAWDASV.

Mapio bylchau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r byclhau hyn drwy ddealltwriaeth drylwyr o'r rhwystrau er mwyn gwella gwaith casglu data a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys defnyddio trefniadau rhannu data.

Deall anghenion hyfforddiant a datblygu ymarferwyr sy'n casglu, dadansoddi a dehongli data ynghylch VAWDASV a nodi cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion dysgu.

Datblygu cynllun gwerthuso i gynorthwyo i ehangu a lledaenu arferion da ledled y rhanbarth.

Sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio gwaith dadnsoddi, gwerthuso a gwella ansawdd mewn perthynas ag ymyriadau VAWDASV a bod y dirnadaethau a dadansoddiadau meintiol yn cael eu hystyried i'r un graddau wrth lywio prosesau gwneud penderfyniadau.

Nodiu cyfleoedd i gynorthwyo â/dylanwadu ar waith i weithredu argymhellion cenedlaethol yn nhirwedd data yr Adolygiad o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (2026)

Rydym yn addo y bydd llwybr VAWDASV eglur, cyson a chynaliadwy ar waith ar gyfer holl gymunedau Gwent i sicrhau y cânt eu hamddiffyn yn effeithiol rhag VAWDASV pan fydd hynny'n digwydd. Ymdrinnir â'r anghenion am gymorth di-oed a chymorth yn y tymor hwy i'w galluogi i adfer.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

Datblygu cyd-ddealltwriaeth sy'n blaenoriaethu goroeswyr o lefelau risg ar draws yr ystod lawn o ymatebion i VAWDASV

Cyd-gynhyrchu llwybr arferion gorau ym maes VAWDASV sy'n gynhwysfawr ac yn ymateb i risgiau ar gyfer Gwent, ac yn sicrhau y caiff y llwybr hwnnw ei lywio gan brofiad bywyd ac ymyriadau a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mapio'r darpariaeth a chapasiti presennol gwasanaethau yng Ngwent ac adolygu hynny gan gymharu â'r llwybr arferion gorau ym maes VAWDASV.

Datblygu achos busnes i gyfiawnhau gweithredu'r llwybr arferion gorau i alluogi partneriaid i ddadlau dros gyllid cynaliadwy i ariannu gwaith ym maes VAWDASV.

Nodwch meysydd ble gallai comisiynu ar y cyd gynnig cyfleoedd i gynyddu mynediad at wasanaethau a diwallu anghenion yn well, gan gynnwys anghenion cymunedau a danwasanaethir.

Gweithio tuag at sicrhau ymrwymiad ledled y bartneriaeth i ddulliau ariannu cydweithredol sy'n mwyafu effaith a chynaliadwyedd dulliau cyllido gwasanaethau.

Rydym yn addo y bydd llwybrau gofal VAWDASV Gwent yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr risg isel a chanolig a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod cymorth o ansawdd uchel sy'n gymesur, effeithiol ac yn gyfannol ar gael i ddiwallu anghenion cymorth cyfredol a thymor hwy a galluogi pobl i adfer.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

Cyd-lunio llwybr arferion gorau yn ymwneud â risgiau isel a chanoli a gaiff ei lywio gan brofiadau bywyd ac ymyriadau a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mapio darpariaeth bresennol gwasanaethau yng Ngwent ac adolygu hynny gan gymharu â'r llwybr arferion gorau yn achos risgiau isel a chanolig ym maes VAWDASV.

Datblygu achos busnes i gyfiawnhau gweithredu'r llwybr arferion gorau mewn perthynas â risgiau isel a chanolig i alluogi partneriaid i ddadlau dros gyllid cynaliadwy i ariannu gwasanaethau ymyrraeth gynnar.

Nodi ymyriadau sy'n arferion gorau sy'n cynorthwyo pobl i adfer yn yr hirdymor yn sgil profiadau o VAWDASV (ar gyfer oedolion a phlant)

Rydym yn addo y bydd babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi VAWDASV yn eu teulu neu yn eu perthnasoedd personol eu hunain yn gallu cael cymorth briodol sy'n diwallu eu hanghenion penodol, gan gynnwys cymorth i allu adfer.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

Datblygu llwybr arferion gorau VAWDASV ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol pobl ifanc sy'n profi VAWDASV yn eu perthnasoedd personol eu hunain.

Sicrhau bod llwybrau arferion gorau VAWDASV Gwent yn cynnwys anghenion babanod, plant a phobl ifanc yn y teulu ble profir VAWDASV o fewn aelwyd.

Nodi'r ymyriadau cyffredinol, yr ymyriadau cynnar a'r ymyriadau arbenigol sy'n arferion gorau ac yn ddulliau effeithiol o ddiwallu anghenion babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi gweld VAWDASV

Rydym yn addo y bydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent yn deall effaith VAWDASV ar ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd a byddant yn dosturiol a ystyriol o'u hanghenion a'u dewisiadau. Bydd pob gwasanaeth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu fel ymyriadau sy'n ystyriol o drawma sy'n deall croestoriadedd a bydd yr angen i ddatgelu dro ar ôl tro yn cael ei leiafu.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

Sicrhau bod llwybrau VAWDASV yng Ngwent yn galluogi cymorth amlasiantaethol cydlynol ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd drwy fynd i'r afael yn gyfannol ac ar yr un pryd ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd pan fo angen hynny.

Gwreiddio dulliau cyd-lunio sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr a goroeswyr i gynnwys cymorth yn llwybrai VAWDASV er mwyn sicrhau y caiff yr angen i ailadrodd straeon ei leiafu.

Disgrifio arferion gorau presennol a dulliau arloesol i lleihau'r angen i ddioddefwyr a goroeswyr ailadrodd eu straeon er mwyn llywio arferion lleol.

Archwilio rôl cydleoli gwasanaethau o ran cynorthwyo i weithredu llwybrau arferion gorau ym maes VAWDASV yng Ngwent

---

Rydym yn addo y bydd dioddefwyr a goroeswyr yng Ngwent yn cael mynediad amserol at dai addas gan sicrhau y gallant adael sefyllfaoedd camdriniol yn ddiogel a pharhau i gael mynediad at leoedd diogel i adfer.



I gyflawni hyn, byddwn yn:

Mapio llwybrau cyfredol o ran mynediad at lety ledled Gwent ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV a'u teuluoedd.

Hysbysu ymarferwyr yn y gwasanaethau VAWDASV yn effeithiol am lwybrau gwasanaethau tai er mwyn eu galluogi i gynorthwyo cleientiaid i lywio llwybrau gwasanaethau tai.

Disgrifio'r ystod lawn o anghenion cymorth â llety ar draws maes VAWDASV i ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau cyfannol sy'n ystyriol o drawma mewn perthynas â'r angen am wasanaethau tai sy'n ystyried ystod o anghenion goroeswyr.

Disgrifio ehangder a natur yr angen am llety brys a dros dro sy'n ofynnol i amddiffyn a diogelu pobl yng Ngwent sy'n profi VAWDASV ac effaith y diffyg llety presennol ar iechyd, lles a diogelwch dioddefwyr a goroeswyr.

Dadlau dros fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn y ddarpariaeth tai ar y lefelau sy'n ofynnol i sicrhau y gall dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV a'u teuluoedd adael sefyllfaoedd camdriniol yn ddiogel.

Datblygu, peilota a gwerthuso dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau tai ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV a'u teuluoedd.

Rydym yn addo y bydd diwylliant yng Ngwent sy'n galluogi buddsoddi mewn gweithgareddau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth ac sy'n ddigon eang i ddylanwadu'n gadarnhaol ar normau'r gymdeithas a chredoau ynghych VAWDASV.



I gyflawni hyn, byddwn yn:

Disgrifio dull cynhwysfawr o atal trais mewn lleoliadau penodol yng Ngwent a gaiff ei lywio gan Fframwaith Atal Cymru Heb Drais.

Deall beth sy'n rhwystro ac yn hwyluso sefydlu dulliau atal trais mewn lleoliadau ledled yr ystod lawn o leoliadau addysgol.

Datblygu a gwerthuso cynllun peilot rhwydwaith cefnogwyr dynion yn y gweithle yn BIPAB a defnyddio gwersi a ddysgir i lywio ehangder a chwmpas gweithredu yn y dyfodol ledled gwasanaethau cyhoeddus Gwent.

Datblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i alluogi sefydliadau cymunedol a rhai'r sector gwirfoddol yng Ngwent i gael hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ynghylch sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol .

Monitro'r nifer sy'n cael ei cyfranogi mewn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar draws partneriaid statudol VAWDASV trwy adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd.

Disgrifiwch dull cwrs bywyd seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi VASDAW i'w galluogi i adfer ac i atal cylchoedd dieflig trais sy'n pontio'r cenedlaethau.

Disgrifio rôl penderfynyddion ehangach iechyd o ran gwaethygu mynychder ac effaith VAWDASV a'r rôl partneriaid ehangach o ran cynorthwyo i gyflawni nodau strategol Bwrdd VAWDASV.

Atodiad

Atodiad A: Themâu'r dadansoddiad ansoddol

Gan ddefnyddio'r dull Dadansoddi Fframwaith, crëwyd wyth prif thema a 56 is-themâu o'r data, a chrynhoir hwy isod. Mae cyhoeddiad ychwanegol yn cynnig trosolwg llawn o'r dirnadaethau ansoddol a gasglwyd drwy'r gwaith hwn.

Cryfderau'r System

Gwaith partneriaeth effeithiol

Gwasanaethau cymorth effeithiol

Arloesedd

Cymorth i blant a phobl ifanc

Hyfforddiant a datblygu'r gweithlu

Bylchau a Meysydd i'w Gwella

Plant a phobl ifanc

Ymateb i gyflawnwyr a darpariaeth ar eu cyfer

Ymyrraeth gynnar ac atal

Grwpiau gwahanol o ddioddefwyr: dioddefwyr gwrywaidd, dioddefwyr hŷn, pobl ag anghenion niferus sy'n cyd-ddigwydd

Cymorth therapiwtig a chymorth i adfer

Grwpiau o gymunedau hil leiafridedig: dim hawl i gael arian cyhoeddus, mewnfudo a dehongliad

Ymwybyddiaeth cymunedau a gweithwyr proffesiynol

Anghenion hyfforddiant

Duliau sy'n canolbwyntio ar unigolion a goreswyr

Addewidion afrealistig a ffiniau gwasanaethau

Diwylliant a rhagfarn ddiarwybod

Seilwaith a Chapasiti'r System

Cyllid a chomisiynu

Capasiti'r gweithlu a chydleoli

Llwybrau gwasanaeth tai a llety diogel

Ansawdd data, rhannu gwybodaeth a gwybodaeth yn deillio o'r system

Gwasanaethau tameidiog

Deddfwriaeth a pholisi

Trwybwn y system a'i hamseroldeb

Rhwystrau Rhag Mynediad

Ffiniau gweinyddol

Diffyg capasiti a rhestrau aros

Ofn

Llwybrau mynediad

Rhwystrau ieithyddol a diwylliannol

Stereoteipio a rhagdybiaethau

Cyfyngiadau ymarferol

MARAC

Proses effeithiol

Proses sy'n defnyddio llawer o adnoddau

Effaith emosiynol MARAC

Adborth gan MARAC

Seilwaith MARAC

Anghenion sy'n Newid ac yn Dod i'r Amlwg

Cynnydd yn y defnydd o alcohol a sylweddau

Cynnydd mewn anghenion niferus sy'n cyd-ddigwydd

Ymwybyddiaeth

Iechyd meddwl ac anghenion cyfannol

Cyflawni gwasanaethau a'r galw amdanynt

Anghenion goroeswyr gwrywaidd

Anghenion Niferus sy'n Cyd-ddigwydd

Amgylchiadau economaidd-gymdeithasol

Iechyd meddwl

Grwpiau iechyd cynhwysiant

Anghenion sy'n cyd-ddigwydd

Camau Blaenoriaeth - Ffon Hud

Newid diwylliannol - credu dioddefwyr, sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn amlwg

Mwy o gymorth i grwpiau penodol o ddioddefwyr

Cymorth i blant a phobl ifanc

Cynyddu cyllid a chapasiti

Integreiddio, cydleoli a llwybrau symlach

Canolbwyntio mwy ar waith atal

Llwybrau gwasanaethau tai a llety diogel

Ymateb a darpariaeth gwell i gyflawnwyr

Diwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

Atodiad B: Mapiau gwasanaethau awdurdodau lleol




Torfaen
Cymorth 1 ac 1 i Bobl Ifanc (CADA/Ar Trac) (Cyfannol WA)
Cymorth un ac un gan Fentoriaid a Chymorth mewn Grwpiau (Cyfannol WA)
Cymorth Symudol i Ddynion sy'n Ddioddef Cam-drin Domestig (Stori)
Plant a Phobl Ifanc
Cymorth mewn Grwpiau i Bobl Ifanc (Cyfannol WA)
Cymorth di-oed i ymateb i argyfyngau (Cyfannol WA)
16 - 25 Cymorth lle bo'r angen (Cyfannol WA)
Hybiau Galw Heibio (Cyfannol WA)
Cyflawnwr
Goroeswr
Cymorth i'r Teulu Cyfan gan (Phoenix DAS)
Cymorth lle bo'r angen (Cyfannol WA)
Teuluoedd agored (Stori)
Llety diogel (Cyfannol WA)
Lefel isel generig cymorth lle bo'r angen (Stori)


Sir Fynwy
Cymorth 1 ac 1 i Bobl Ifanc (CADA/Ar Trac) (Cyfannol WA)
Cymorth un ac un gan Fentoriaid a Chymorth mewn Grwpiau (Cyfannol WA)
Gwasanaeth Cymorth Cam-drin Domestig Allgymorth Sir Fynwy (MODAS) (Llamau)
Cymorth di-oed i ymateb i argyfyngau (Cyfannol WA)
Hybiau Galw Heibio (Cyfannol WA)
Plant a Phobl Ifanc
Gwasanaeth cymunedol / Cymorth Lle Bo'r Angen (Llamau)
Goroeswr
Cwrs Adfer Hope 2 (Cyfannol WA)
Cyflawnwr
Llety diogel (Cyfannol WA)


Caerffili
Cymorth di-oed i ymateb i argyfyngau (Cyfannol WA)
Dim Ofn Cymorth 1 ac 1 (Llamau)
Gwasanaeth Allgymorth Cam-drin Domestig i Blant a Phobl Ifanc (Llamau)
Gwasanaeth cymunedol / Cymorth Lle Bo'r Angen (Cyfannol WA)
Goroeswr
Plant a Phobl Ifanc
Rhaglen Youth Respect (YOS Caerphilly & Blaenau Gwent)
Llety diogel (Cyfannol WA)
Cymorth 1 ac 1 i Bobl Ifanc (CADA) (Cyfannol WA)
Gwasanaeth Allgymorth Camfanteisio'n Rhywiol (Cyfannol WA)
Cyflawnwr
Rhaglenni i Gyflawnwyr gan Phoenix Domestic Abuse Services (Phoenix DAS)


Blaenau Gwent
Break for Change (trais rhwng pobl ifanc a rhieni) (Cyfannol WA)
Cymorth un ac un gan Fentoriaid a Chymorth mewn Grwpiau (Cyfannol WA)
Hybiau Galw Heibio (Cyfannol WA)
Cymorth di-oed i ymateb i argyfyngau (Cyfannol WA)
Plant a Phobl Ifanc
Rhaglen Parch Ieuenctid (Phoenix Das)
Gwasanaeth cymunedol / Cymorth Lle Bo'r Angen (Cyfannol WA)
Goroeswr
Cymorth 1 ac 1 i Bobl Ifanc (Ar Trac/CADA) (Cyfannol WA)
Llety diogel (Cyfannol WA)
Cyflawnwr